Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 22 Mai 2012**

Amser:
**09:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Tom Jackson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8597
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

## Agenda

**Sesiwn friffio breifat (9.00 - 9.10)**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (9:10 - 9:15)

### 2. Sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Menter Twyll Genedlaethol 2010-2011: Sicrhau'r defnydd cywir o arian cyhoeddus' (9:15 - 9:45) (Tudalennau 1 - 30)

PAC(4) 08-12 - Papur 1 - Menter Twyll Genedlaethol 2010-2011: Sicrhau'r defnydd cywir o arian cyhoeddus

### 3. Cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymateb Llywodraeth Cymru i 'Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai' (9:45 - 10:00)

(Tudalennau 31 - 38)

PAC(4) 08-12 - Papur 2 - Ymateb Llywodraeth Cymru i 'Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai'

PAC(4) 08-12 - Papur 3 - Cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymateb Llywodraeth Cymru i 'Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai'

### 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Eitemau 5 a 6.

**5. Ystyried opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Menter Twyll Genedlaethol 2010-11: Sicrhau'r defnydd cywir o arian cyhoeddus' (10:00 - 10:15)**

**6. Trafod argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Trydydd Cynulliad (10:15 - 11:00)** (Tudalennau 39 - 93)

**7. Papurau i'w nodi** (Tudalennau 94 - 95)

Eitem 2

16 Mai 2012

www.wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Menter Twyll Genedlaethol 2010-11: Sicrhau'r defnydd cywir o arian cyhoeddus



Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau Menter Twyll Genedlaethol 2010-11. Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Yr aelodau o staff yn Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd wrth baratoi'r adroddiad hwn oedd Katrina Febry, David Rees ac Anthony Barrett.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2012

**Cyflwynwyd yr adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 16 Mai 2012**






80% recycled paper
80% o bapur a ailgylchwyd

# Cynnwys


Rhagair 5

Crynodeb 6

1 Yr ymarfer diweddaraf fu'r un mwyaf llwyddiannus hyd yma o ran atal a chanfod twyll yn erbyn y sector cyhoeddus yng Nghymru 7

Yr ymarfer diweddaraf fu'r un mwyaf llwyddiannus hyd yma, gan arwain at gyfanswm o bron £6 miliwn o arbedion i bwrs y wlad 7

Mae gwaith paru'r Fenter wedi helpu i nodi achosion o dwyll a gordaliadau mewn amrywiaeth eang o feysydd 11

Mae cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi bod yn cymryd rhan yn y Fenter, wedi bod yn fwy rhagweithiol o ran adolygu'r gwaith paru data 22

2 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn parhau i gael ei datblygu er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol 24

Bydd angen datblygu trefniadau cydweithredu cadarn â'r corff a fydd yn olynu'r Comisiwn Archwilio sy'n cynnal y Fenter yn Lloegr 25

Mae angen cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn y Fenter er mwyn sicrhau buddiannau mwyaf posibl yr ymarfer 25

Mae angen i'r Fenter barhau i ymestyn i feysydd newydd o'r gwasanaethau cyhoeddus lle y gallai twyll ddigwydd 26

Mae angen i'r Fenter gael ei datblygu i helpu cyrff cyhoeddus i atal twyll yn ogystal â'u helpu i'w ganfod 27

Mae'n rhaid cynnal safonau uchel presennol diogelwch data'r Fenter 28

Atodiadau

Sut mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithio 30



# Rhagair



Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu cyfnod estynedig o doriadau ariannol, gyda gostyngiadau o £1.6 biliwn mewn termau real rhwng 2010-11 a 2013-14. Mae'r her ariannol hon yn effeithio ar ddefnyddwyr a chyflogeion gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â'r rhai sy'n cynnal busnes â'r sector cyhoeddus.

O dan amgylchiadau o'r fath mae'n hollbwysig bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl; ni ellir goddef gwastraff na thwyll. Yn ôl y Dangosydd Twyll Blynyddol diweddar a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol mae economi'r DU yn colli £73 biliwn drwy dwyll[1]. O'r cyfanswm hwn priodolwyd tua £6.3 biliwn[2] i dwyll o fewn llywodraeth ganolog, y GIG, llywodraeth leol, a'r system budd-daliadau a'r system credydau treth.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter) yn adnodd hynod effeithiol sy'n parhau i chwarae rhan hollbwysig yn y frwydr yn erbyn twyll ac mae'n dda gennyf gyflwyno canlyniadau'r ymarfer dwyflynyddol diwethaf. Ers ei chyflwyno yn 1996, mae wedi cael ei defnyddio i nodi twyll a gordaliadau gwerth dros £22 miliwn yn erbyn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr ymarfer diweddaraf fu'r un mwyaf llwyddiannus hyd yma, ar ôl datgelu twyll a gordaliadau gwerth £6 miliwn. Er bod yr arbedion hyn i bwrs y wlad yn werthfawr o ran helpu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, mae mantais y Fenter yn ymestyn y tu hwnt i'r arbedion ariannol y gellir eu nodi. Mae'n parhau i fod yn rhwystr sylweddol i dwyllwyr posibl ac mae hefyd wedi galluogi cyrff cyhoeddus i nodi gwendidau yn eu trefniadau gwrth-dwyll ac i fynd i'r afael â hwy.

Rhaid canmol gweision cyhoeddus ledled Cymru am yr ymdrech fawr a wnaed ganddynt i adolygu gwaith paru data, nodi ac atal twyll, adennill gordaliadau a sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol yn cael eu dwyn i gyfrif. Er y dylai'r rhai a gymerodd ran ymfalchïo yn llwyddiant parhaus y Fenter ni allwn laesu dwylo. Oherwydd cyflwr cyfredol yr economi mae hyd yn oed mwy o bwysau ar dwyllwyr i ddyfeisio ffyrdd newydd a chynyddol soffistigedig o gyflawni eu troseddau ac mae angen i'r sector cyhoeddus fod yn ymwybodol drwy'r amser o dueddiadau newydd o ran twyll. Rwyf yn awyddus i sicrhau bod y Fenter yn cyfrannu at yr agenda hon drwy sicrhau bod yr adnoddau cywir ar gael i atal a chanfod pob math o dwyll yn erbyn cyrff cyhoeddus. Byddwn yn chwilio am setiau data newydd a meysydd paru data newydd i wella ein gallu i drechu twyll, a byddwn yn annog pob sefydliad yn y sector cyhoeddus (ac yn wir unrhyw sefydliad) i gysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru i gael gwybodaeth am y costau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Awdurdod Twyll Cenedlaethol, Dangosydd Twyll Blynyddol, Mawrth 2012

2 Awdurdod Twyll Cenedlaethol, Dangosydd Twyll Blynyddol, Mawrth 2012

# Crynodeb

1 Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwario biliynau o bunnoedd o arian y trethdalwyr ar ddarparu budd-daliadau a gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol y boblogaeth yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan y rhai sy'n cael y budd-daliadau a'r gwasanaethau hyn hawl iddynt ac maent yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i wella ansawdd bywyd.

2 Yn anffodus, mae rhai unigolion yn ceisio hawlio budd-daliadau a gwasanaethau nad oes ganddynt hawl iddynt. Maent yn gwneud ceisiadau a hawliadau twyllodrus a thrwy hynny'n amddifadu gwasanaethau cyhoeddus o adnoddau gwerthfawr y gellid eu defnyddio i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Nid trosedd heb ddioddefwyr yw twyll yn erbyn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n golygu y bydd yn rhaid i unigolion sydd ag angen gwirioneddol aros yn hirach am wasanaethau, triniaethau neu gymorth o bosibl oherwydd trachwant eraill.

3 Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu eu her fwyaf ers cenhedlaeth. Maent yn wynebu gostyngiadau sylweddol mewn cyllidebau termau real yn y blynyddoedd nesaf. Felly mae'n hanfodol bod cyrff cyhoeddus yn gweithio i ddileu gwastraff ac aneffeithlonrwydd yn eu gwasanaethau presennol er mwyn lleihau'r effaith bosibl ar wasanaethau'r rheng flaen. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau bod gan y rhai sy'n cael gwasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau yr hawl iddynt.

4 Er mwyn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn eu brwydr yn erbyn twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter) yng Nghymru bob dwy flynedd. Mae'r Fenter yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Bu'n adnodd effeithiol iawn i ganfod twyll a gordaliadau a sicrhau arbedion i bwrs y wlad. Ers iddi ddechrau yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at nodi mwy na £22 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a £939 miliwn ledled y DU.

5 Rhoddwyd y gwaith paru data ar gyfer ymarfer diweddaraf y Fenter (Menter Twyll Genedlaethol 2010-11) i gyrff cyhoeddus ym mis Ionawr 2011. Ers hynny, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith paru wedi'i adolygu ac mae ymchwiliadau wedi'u cynnal, lle bo hynny'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o ymchwiliadau'r Fenter wedi'u cwblhau, ond mae rhai yn parhau.

6 Bu Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 yn hynod effeithiol gan arwain at nodi twyll a gordaliadau gwerth mwy na £6 miliwn yng Nghymru a £275 miliwn ledled y DU. Er mwyn parhau i gyfrannu at yr arbedion effeithlonrwydd sylweddol y bydd angen i'r sector cyhoeddus yng Nghymru eu sicrhau yn y dyfodol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn parhau i ddatblygu'r Fenter ymhellach. Bydd yn ymestyn i feysydd eraill lle y gallai twyll ddigwydd a chaiff setiau data newydd eu cyflwyno er mwyn helpu i nodi trafodion twyllodrus. Mae cryn gynnydd ar y gwelliannau a'r datblygiadau hyn eisoes wedi'i wneud.



# Rhan 1 - Yr ymarfer diweddaraf fu'r un mwyaf llwyddiannus hyd yma o ran atal a chanfod twyll yn erbyn y sector cyhoeddus yng Nghymru

## Yr ymarfer diweddaraf fu'r un mwyaf llwyddiannus hyd yma, gan arwain at gyfanswm o bron £6 miliwn o arbedion i bwrs y wlad

**1.1** Mae'r Awdurdod Twyll Cenedlaethol wedi amcangyfrif bod sector cyhoeddus y DU yn unig yn colli £20.3 biliwn[3] drwy dwyll. Mae twyll nid yn unig yn niweidiol i'r economi gyfan, mae twyll yn erbyn cyrff cyhoeddus yn amddifadu'r sector cyhoeddus o adnoddau gwerthfawr, cyfyngedig ac yn atal unigolion sydd ag angen gwirioneddol rhag cael gwasanaethau hollbwysig. Felly nid trosedd heb ddioddefwyr yw twyll ac mae'n hollbwysig bod pob corff cyhoeddus yn lleihau colledion oherwydd twyll i'r eithaf drwy weithredu trefniadau effeithiol i atal a chanfod twyll. Gyda chyrff cyhoeddus yn wynebu cyfyngiadau ariannol mawr, mae lleihau colledion oherwydd twyll yn bwysicach nag erioed.

**1.2** Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn eu brwydr yn erbyn twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter) bob dwy flynedd. Mae'r Fenter yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi anghysondebau a allai ddangos hawliadau a thrafodion twyllodrus. Mae Arddangosyn 1 yn nodi rhai enghreifftiau o'r gwaith paru data a wneir o dan y Fenter a'r mathau o faterion sy'n dod i'r amlwg.

**Arddangosyn 1 - Enghreifftiau o'r mathau o faterion y gall y Fenter eu datgelu**

| Setiau data a barwyd | Materion a ddatgelwyd |
|---|---|
| Cofnodion cyflogres â chofnodion ceiswyr lloches aflwyddiannus y Swyddfa Gartref a chofnodion fisa sydd wedi dod i ben | Cyflogeion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus nad oes hawl ganddynt i fod yn y DU. |
| Cofnodion budd-dal tai a rhent tai â chofnodion budd-dal tai a rhent tai | Unigolion sy'n hawlio budd-daliadau tai a/neu rent tai gan fwy nag un awdurdod lleol. |
| Cofnodion cyflogres pensiwn â chofnodion unigolion sydd wedi marw | Pensiwn galwedigaethol yn cael ei dalu lle mae unigolyn wedi marw, ac ni hysbyswyd talwr y pensiwn. |
| Cofnodion cyflogres â chofnodion cyflogres | Cyflogeion ar absenoldeb salwch hirdymor o un cyflogwr tra'n gweithio i gyflogwr arall. |
| Cofnodion deiliaid bathodynnau glas â chofnodion unigolion sydd wedi marw | Defnydd amhriodol o fathodynnau glas, lle y mae deiliad y drwydded wedi marw, ond efallai na hysbyswyd yr awdurdod lleol. |

3 Awdurdod Twyll Cenedlaethol, Dangosydd Twyll Blynyddol, Mawrth 2012

1.3 Cynhelir y Fenter yng Nghymru ar y cyd ag ymarferion yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn ei gwneud yn bosibl i baru data ar draws ffiniau cenedlaethol. Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ac er mwyn lleihau dyblygu ymdrech, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydweithredu ag asiantaethau archwilio cenedlaethol eraill, y Comisiwn Archwilio, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys datblygu ar y cyd fodiwlau paru data newydd, rhannu trefniadau prosesu data a rhannu adnoddau megis staff a chanllawiau technegol. Darperir rhagor o wybodaeth am y Fenter a sut y mae'n gweithio yn Atodiad 1.

1.4 Bu'r Fenter yn adnodd effeithiol iawn o ran canfod twyll a gordaliadau a sicrhau arbedion i bwrs y wlad. Ers iddi ddechrau yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at nodi mwy na £22 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a £939 miliwn ledled y DU. Ymhlith y gordaliadau a gofnodwyd mae symiau o arian sydd eisoes wedi cael eu talu a blaen amcanestyniadau, lle mae'n rhesymol tybio y byddai twyll, gordaliadau a gwall wedi parhau heb eu canfod oni bai am ymarfer para data'r Fenter.

1.5 Dechreuodd yr ymarfer mwyaf diweddar, Menter Twyll Genedlaethol 2010-11, ym mis Hydref 2010. Bu 43 o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cymryd rhan yn 2010-11. Roedd y rhain yn cynnwys y sefydliadau canlynol y mae'n orfodol iddynt gymryd rhan:

- Awdurdodau lleol
- Awdurdodau'r heddlu
- Awdurdodau tân
- Cyrff y GIG
- Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Prawf


1.6 Cymerodd Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd ran ar sail wirfoddol. Hefyd, mae Swyddfa Archwilio Cymru a chyflenwyr archwilio eraill sydd o dan gontract i'r Archwilydd Cyffredinol i archwilio cyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cymryd rhan ar sail wirfoddol. Mae'r cyflenwyr hyn yn cynnwys: Grant Thornton, KPMG a PricewaterhouseCoopers. Caiff manylion cyflogres y mwyafrif llethol o staff y sector cyhoeddus a'u harchwilwyr allanol eu cynnwys yn y Fenter at ddibenion paru data er mwyn canfod ac atal twyll.

1.7 Rhoddwyd y gwaith paru data ar gyfer yr ymarfer diweddaraf (Menter Twyll Genedlaethol 2010-11) i gyrff cyhoeddus ym mis Ionawr 2011. Ers hynny, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith paru wedi'i adolygu ac mae ymchwiliadau wedi'u cynnal, lle bo hynny'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o ymchwiliadau'r Fenter wedi'u cwblhau, ond mae rhai yn parhau.

1.8 Yr ymarfer diweddaraf fu'r un mwyaf llwyddiannus hyd yma; ers adroddiad y Fenter flaenorol mae twyll a gordaliadau gwerth £6 miliwn yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi cael eu canfod a'u hatal. Bu hyn dipyn yn uwch na'r swm a nodwyd yn ymarfer 2008-09 sef £4.5 miliwn. Dengys Arddangosyn 2 sut y mae gwerth yr arbedion a nodwyd yng Nghymru drwy'r Fenter wedi codi ers i'r ymarfer ddechrau yn 1996.



**Arddangosyn 2 - Arbedion a nodwyd gan y Fenter yng Nghymru £miliwn**





*Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Fenter*

**1.9** Yn ogystal â pharhau i fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer canfod twyll, mae'r Fenter hefyd yn rhwystr pwysig i'r rhai sy'n ceisio cyflawni twyll. Arweiniodd yr ymarfer diweddaraf at erlyn 54 o droseddwyr yn llwyddiannus a rhoddwyd cosbau mewn 102 o achosion eraill.

**1.10** Dengys Arddangosyn 3 ddadansoddiad o ganlyniadau achosion y Fenter yr ymchwiliwyd iddynt fel rhan o ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2010-11. Mae hyn yn dangos bod y Fenter wedi helpu i nodi twyll a gordaliadau mewn amrywiaeth eang o feysydd megis budd-dal tai, Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor (CTSPD) a phensiynau.

## Arddangosyn 3 - Crynodeb o achosion y Fenter yng Nghymru




*Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Fenter*



## Mae gwaith paru'r Fenter wedi helpu i nodi achosion o dwyll a gordaliadau mewn amrywiaeth eang o feysydd

**1.11** Pan ddechreuodd y Fenter yn 1996, y prif ddiben oedd paru data er mwyn nodi twyll a gordaliadau yn yr hyn yr ystyriwyd yn feysydd o risg uchel, yn benodol:


- Buddiannau tai
- Cyflogres y sector cyhoeddus
- Pensiynau'r sector cyhoeddus

**1.12** Dros lawer o flynyddoedd, mae paru data yn y meysydd hyn wedi arwain at nodi twyll a gordaliadau gwerth uchel, gan gynnwys achosion hirsefydledig o dwyll. Yn benodol, mae nifer o daliadau pensiwn hirsefydlog a wnaed yn enw pensiynwyr sydd wedi marw bellach wedi'u hatal. Canfu'r ymarfer diweddaraf fod gwaith paru data traddodiadol o'r fath yn parhau i fod yn adnodd effeithiol i ganfod twyll a gordaliadau, ac mae'n parhau i ganfod achosion o dwyll. Mae gwerth yr achosion unigol o dwyll yn y meysydd hyn yn tueddu i fod yn is am fod y rhan fwyaf o achosion hirsefydledig o dwyll wedi cael eu dileu.

**1.13** Ers yr ymarfer cyntaf mae llawer o fodiwlau newydd wedi cael eu cyflwyno sydd wedi rhoi cyfle i sefydliadau sy'n cymryd rhan nodi twyll a gordaliadau mewn meysydd eraill, megis taliadau credydwyr a CTSPD a hawlir.

**1.14** Cyflwynodd Menter Twyll Genedlaethol 2008-09 ymarfer paru rhwng cofrestr yr etholwyr a'r rhai sy'n cael CTSPD. Y nod oedd helpu awdurdodau lleol i nodi pobl sy'n cael gostyngiad nad oes ganddynt hawl iddo o bosibl. Drwy Fenter Twyll Genedlaethol 2010-11 cafodd achosion o dwyll a gordaliadau gwerth £2.9 miliwn mewn perthynas â hawlio CTSPD eu canfod a'u hatal, o gymharu â £1.1 miliwn yn ymarfer 2008-09. Y prif reswm dros y cynnydd hwn yw'r camau rhagweithiol a gymerwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru i ymchwilio i'r gwaith paru data.

**Arddangosyn 4 - Gordaliadau ac arbedion cysylltiedig yn y dyfodol a nodwyd drwy Fenter Twyll Genedlaethol 2010-11 o gymharu â 2008-09**




*Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Fenter*

1.15 Ym mis Medi 2011, cynhaliwyd ymarfer peilot ledled y DU i nodi achosion lle roedd twyllwyr yn defnyddio manylion adnabod ffug neu rai a ddygwyd er mwyn gwneud cais am swydd neu hawlio budd-daliadau gan gyrff yn y sector cyhoeddus. Cymerodd dros 200 o gyrff cyhoeddus ran yn y peilot, gan gynnwys pum corff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

1.16 Roedd yr ymarfer hwn yn cynnwys paru data'r Fenter â chronfa ddata Amberhill a gynhelir gan yr Heddlu Metropolitan. Mae cronfa ddata Amberhill yn cynnwys degau ar filoedd o gofnodion o fanylion adnabod ffug a manylion adnabod dilys sydd wedi cael eu dwyn a'u defnyddio gan dwyllwyr i greu dogfennau ffug. Mae'r heddlu wedi cael gafael ar y wybodaeth hon drwy amrywiol ymgyrchoedd gan heddluoedd.

1.17 Bu'r ymarfer peilot yn hynod lwyddiannus a nodwyd amrywiaeth eang o dwyll yn erbyn cyrff cyhoeddus a oedd yn cynnwys defnyddio manylion personol a ddygwyd neu fanylion personol ffug. Roedd yr achosion hyn o dwyll yn ymwneud â'r canlynol:

- Cyflogaeth
- Hawlio budd-daliadau tai
- Ceisiadau am dai cymdeithasol
- Ceisiadau am drwyddedau tacsi
- Ceisiadau am gardiau teithio rhatach ar fysiau a bathodynnau glas

1.18 Yng Nghymru, llwyddodd y gwaith paru hwn i ddatgelu nifer o achosion yn cynnwys unigolyn a ddefnyddiodd drwydded yrru ffug fel prawf adnabod mewn cais am drwydded gyrrwr tacsi ac unigolyn a ddefnyddiodd ddogfennaeth ffug y Swyddfa Gartref i gael swydd mewn sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru er nad oedd ganddo'r hawl i weithio yn y DU.

1.19 Mae'r gwaith paru hwn wedi helpu cyrff cyhoeddus i ganfod gweithgareddau twyllodrus, a galluogi'r heddlu i arestio nifer o unigolion am droseddau a gyflawnwyd gan ddefnyddio manylion personol ffug.

1.20 Mae'r gwaith paru hefyd wedi helpu'r heddlu i ddod o hyd i bobl y mae eu manylion personol wedi cael eu camddefnyddio gan dwyllwyr a hynny heb yn wybod iddynt. Ymchwiliodd yr heddlu i achos o baru data rhwng cyflogai yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a chronfa ddata Amberhill. Datgelodd yr ymchwiliad nad oedd y cyflogai yn euog o dwyll ac nad oedd yn ymwybodol bod ei fanylion personol wedi cael eu dwyn a'u defnyddio i greu dogfennau adnabod ffug.

### Mae'r Fenter wedi parhau i helpu awdurdodau lleol i nodi twyll a gordaliadau budd-dal tai yn llwyddiannus

1.21 Mae'r Fenter yn paru cofnodion budd-dal tai â nifer o setiau data er mwyn nodi hawliadau twyllodrus neu wallus. Mae canfod twyll budd-dal tai ac adennill gordaliadau wedi bod yn un o feysydd mwyaf llwyddiannus y Fenter yn draddodiadol, ac yn parhau felly. Nododd ymarfer 2010-11 ordaliadau o fudd-dal tai gwerth mwy na £1.7 miliwn (o gymharu â £1.6 miliwn yn 2008-09).

1.22 Er bod cyfanswm gwerth yr achosion a nodwyd fwy neu lai'n debyg, mae nifer yr achosion o dwyll budd-dal tai a gordaliadau a ganfuwyd drwy'r Fenter wedi gostwng 12 y cant sy'n awgrymu bod gwerth cyfartalog yr achosion o dwyll a gordaliadau a nodwyd wedi cynyddu.

1.23 Mae ein hadolygiad o'r Fenter ledled Cymru yn awgrymu bod cyfuniad o ffactorau'n gyfrifol am y cynnydd o ran gwerth a niferoedd yr achosion budd-dal tai yr ymchwiliwyd iddynt yn llwyddiannus. O ganlyniad i gyflwyno setiau data newydd (megis cofnodion pensiwn y



fyddin a chofnodion pensiwn athrawon) i baru cofnodion budd-daliadau tai nodwyd nifer fach o ordaliadau hirsefydlog gwerth uchel, sydd wedi effeithio ar werth cyfartalog gordaliadau o fudd-dal tai. Mae awdurdodau'n dod yn fwy rhagweithiol wrth ymchwilio i achosion o baru data'r Fenter ac mae twyllwyr yn dod yn fwy rhagweithiol o ran targedu cyrff cyhoeddus.

**1.24** Mae gwaith paru budd-dal tai nid yn unig yn effeithiol o ran nodi twyll ond hefyd o ran canfod gordaliadau sy'n codi o wallau hawlwyr ac awdurdodau lleol. Twyll hawlwyr oedd yn gyfrifol am hanner y gorhawliadau a nodwyd a gwallau oedd yn gyfrifol am yr hanner arall.

**1.25** Yn aml, gall ymchwilio i dwyll budd-dal tai helpu i nodi mathau eraill o ordaliadau. Efallai y bydd pobl sy'n cael budd-dal tai hefyd yn cael budd-daliadau a thaliadau eraill, megis budd-dal y dreth gyngor neu gymhorthdal incwm.

**1.26** Lle y nodwyd bod hawliadau'n dwyllodrus o bosibl, mae awdurdodau lleol wedi bod yn rhagweithiol o ran cyfeirio achosion at yr asiantaethau priodol er mwyn cynnal ymchwiliadau troseddol. Hyd yma, mae hyn wedi arwain at 52 o erlyniadau llwyddiannus, 22 o gosbau gweinyddol gan awdurdodau lleol ac 80 o rybuddion swyddogol gan awdurdodau lleol. Mae'r niferoedd hyn yn debygol o gynyddu gan fod llawer o achosion yn dal i fod yn destun ymchwiliad.

**1.27** Y math mwyaf cyffredin o dwyll budd-dal tai a nodwyd gan y Fenter oedd lle y methodd hawlwyr â datgan eu hincwm neu lle tanddatganwyd incwm partneriaid a oedd yn cyd-fyw â hwy. Mae'r Fenter yn paru hawliadau budd-dal tai â chofnodion cyflogres a phensiwn galwedigaethol sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn nodi achosion lle byddai incwm cyflogres a/neu bensiynau galwedigaethol naill ai'n dileu hawl i'r budd-dal neu'n lleihau'r budd-dal sy'n daladwy.

**1.28** Hyd yma, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi nodi 111 o achosion o gyflogeion presennol y sector cyhoeddus yn tanddatgan eu hincwm wrth hawlio budd-dal tai. Mae Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 wedi nodi gordaliadau gwerth £220,000 yn y maes hwn; nid yw hyn yn cynnwys arbedion a geir yn y dyfodol o ganlyniad i atal neu leihau budd-daliadau a delir. Mae Astudiaethau achos 1 i 5 yn amlinellu pum enghraifft lle mae hawlwyr budd-dal tai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus wedi tanddatgan eu cyflog hwy neu gyflog partner sy'n cyd-fyw â hwy neu wedi methu â datgan cyflog.

**Astudiaeth achos 1**

Ymchwiliodd **Cyngor Sir Caerfyrddin** i achos o baru budd-dal tai â chyflogres a arweiniodd at erlyn twyllwr yn llwyddiannus.

Roedd yr unigolyn wedi bod yn hawlio budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor, ond ar ôl cofrestru'n llawn amser ar gwrs gradd mewn nyrsio hysbysodd y Cyngor nad oedd yn gymwys i gael budd-dal tai mwyach. Deufis ar ôl i'r cwrs ddechrau gwnaeth yr hawliwr gais arall am y budd-dal tai gan ddweud ei bod wedi rhoi'r gorau i'r cwrs a'i bod bellach yn gweithio'n rhan amser. Wedyn symudodd dŷ gan barhau i hawlio budd-dal tai a budd y dreth gyngor.

Canfu ymchwiliad y Cyngor nad oedd wedi rhoi'r gorau i'r cwrs gradd ac yn wir ei bod wedi cwblhau'r cwrs tair blynedd. Wedyn methodd yr hawliwr â hysbysu'r Cyngor ei bod wedi dechrau mewn swydd amser llawn fel nyrs yn **BILl Hywel Dda**. Ffugiodd ddogfennau gan ei hen gyflogwr i ategu ei chais ei bod yn dal i weithio'n rhan amser, gyda chyflog a oedd dipyn yn is na'r hyn roedd yn ei ennill mewn gwirionedd. Darganfu'r Cyngor hefyd ei bod yn gydberchennog ar y tŷ lle roedd yn byw, er iddi hawlio ei bod yn denant ac yn talu rhent o £500 y mis.

Canfuwyd ei bod wedi hawlio dros £18,500 o fudd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor nad oedd ganddi hawl iddynt. Cafodd ddedfryd o garchar am wyth mis wedi'i hatal am 12 mis ynghyd â gofyniad ei bod yn cwblhau cyfnod o 12 mis dan oruchwyliaeth a 200 awr o waith cymunedol di-dâl. Ers hynny mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi diswyddo'r nyrs o ganlyniad ac mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** yn cymryd camau i adennill y gordaliadau.

## Astudiaeth achos 2

Ymchwiliodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** i achos o baru data rhwng budd-dal tai a chyflogres. Nodwyd bod hawliwr yn cael budd-dal tai, budd-dal y dreth gyngor a budd-dal analluogrwydd. Nid oedd yr hawliwr wedi datgan ei fod mewn gwaith. Ymchwiliodd y Cyngor i'r achos ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Cyfaddefodd yr hawliwr ei fod wedi methu â datgan incwm o'i gyflogaeth. Gordalwyd dros £11,500. Mae'r Cyngor a'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cymryd camau i adennill y gordaliad. Mae erlyniad yn yr arfaeth.

## Astudiaeth achos 3

Nododd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** hawliwr budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor a oedd wedi methu â datgan ei bod yn gweithio fel cynorthwyydd gwasanaeth yn y cartref i Fwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg. Canfu'r ymchwiliad fod yr hawliwr wedi hawlio'n anghywir mai hi oedd unig ddeiliad y tŷ. Gordalwyd dros £19,000 o fudd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor. Ar ôl ei herlyn yn llwyddiannus cafodd yr hawliwr ddedfryd o 60 diwrnod yn y carchar. Mae'r Cyngor wrthi'n adennill y swm llawn a hawliwyd yn anghywir. Cafodd yr unigolyn ei ddiswyddo gan **Fwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg**.

## Astudiaeth achos 4

Nododd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** hawliwr budd-dal tai a oedd wedi rhoi gwybodaeth anwir i ategu ei gais am fudd-dal tai, budd-dal y dreth gyngor a chymorthdal incwm. Roedd yr unigolyn wedi hawlio'r budd-daliadau ar y sail ei fod yn unig riant. Datgelodd ymchwiliad i achos o baru data rhwng cofnodion cyflogres y Cyngor a data budd-dal tai nad oedd yr unigolyn wedi datgan ei fod yn briod a bod ei wraig yn byw gydag ef. Hawliwyd dros £17,500 yn anghyfreithlon. Cafodd ei erlyn a'i dedfrydu i gyfnod o 16 wythnos yn y carchar wedi'i atal a gorchmynnwyd iddo wneud 240 awr o waith cymunedol di-dâl. Mae budd-daliadau'r hawliwr wedi cael eu lleihau erbyn hyn a bydd yn ofynnol iddo dalu'r gordaliad yn llawn.

## Astudiaeth achos 5

Wrth adolygu gwaith paru data rhwng hawlwyr budd-dal tai a chofnodion cyflogres, nododd **Cyngor Sir y Fflint** hawliwr, a oedd wedi honni ei bod yn byw ar ei phen ei hun ond a oedd yn cyd-fyw â phartner mewn gwirionedd. Llediodd yn euog i ddau gyhuddiad o fethu â datgan newid yn ei hamgylchiadau pan symudodd ei phartner cyflogedig i mewn i'r cartref.

Gorhawliwyd mwy na £13,500 o fudd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor a chymhorthdal incwm. Derbyniodd yr hawliwr ddedfryd o 120 awr o waith di-dâl a gorchmynnwyd iddi dalu £250 mewn costau i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wrthi'n ceisio adennill y gordaliad.



1.29 Nododd Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 95 o achosion lle nad oedd incwm pensiynwyr sector cyhoeddus wedi cael ei ddatgan mewn ceisiadau am fudd-dal tai. Roedd y gordaliadau i bensiynwyr yn werth £256,000 i gyd. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ordaliad ychwanegol a fyddai wedi digwydd pe caniateid i'r budd-daliadau barhau. O ganlyniad i ychwanegu cofnodion pensiwn athrawon a chofnodion pensiwn y fyddin at y Fenter yn ddiweddar llwyddodd awdurdodau lleol yng Nghymru i nodi nifer o ordaliadau gwerth uchel a oedd wedi parhau ers blynyddoedd lawer. Mae Astudiaethau achos 6 a 7 yn dangos sut mae cyrff sy'n talu pensiynau wedi defnyddio'r Fenter i nodi hawlwyr budd-dal tai sydd wedi methu â datgan incwm cyflog y sector cyhoeddus.

### Astudiaeth achos 6

Nododd gwaith paru'r Fenter fod unigolyn a oedd yn cael budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor yn cael pensiwn athro. Ar ôl ymchwilio ymhellach, canfuwyd gan **Gyngor Bro Morgannwg** bod yr ymgeisydd wedi bod yn cael y pensiwn ers nifer o flynyddoedd ond nad oedd wedi datgan y pensiwn i'r Cyngor nac i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Canfu ymchwiliad ar y cyd nad oedd ganddi hawl i gael y taliad yr oedd yn ei gael. Rhoddwyd terfyn ar y cymhorthdal incwm a lleihawyd y budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor. Mae gordaliadau i'r unigolyn yn werth dros £29,000. Mae erlyniad yn yr arfaeth.

### Astudiaeth achos 7

Gweithiodd dau awdurdod gyda'i gilydd i gynnal ymchwiliad ac erlyn twyllwr yn llwyddiannus ar ôl i **Gyngor Sir Ddinbych** ddarganfod bod hawliwr budd-dal tai a budd y dreth gyngor wedi methu â datgan ei bensiwn gan y fyddin i'r Cyngor. Dangosodd yr ymchwiliad, cyn iddo wahanu oddi wrth ei wraig a symud i'w dŷ yn Sir Ddinbych, fod yr hawliwr wedi byw cyn hynny o fewn ffiniau Cyngor Ynys Môn gyda'i wraig ar y pryd.

Darganfu **Cyngor Sir Ynys Môn** fod gwraig yr hawliwr ar y pryd, mewn cyfeiriad blaenorol, wedi methu â datgan ei bensiwn pan oedd yn hawlio budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor ar ei ran, ac roedd yr hawliwr yn ymwybodol o hyn.

O ganlyniad i'r ddau dwyll, roedd yr hawliwr a'i gyn-wraig wedi cael mwy na £27,000 o fudd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor nad oedd ganddynt hawl iddynt. Erlynwyd yr hawliwr yn llwyddiannus gan y Cynghorau; cafodd orchymyn cymunedol chwe mis, gorchymyn cyrffew â thag am 16 wythnos a gorchmynnwyd iddo dalu £200 mewn costau. Erlynwyd cyn-wraig yr hawliwr yn llwyddiannus gan Gyngor Sir Ynys Môn; cafodd orchymyn gwaith cymunedol o 200 o oriau a gorchmynnwyd iddi dalu £150 mewn costau. Daethpwyd â'r gordaliad i'r hawliwr i ben ac mae'r ddau Gyngor wrthi'n ceisio adennill y gordaliadau.

1.30 Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n cael benthyciadau myfyrwyr yn anghymwys i hawlio budd-dal tai. Gwnaeth ymarfer y Fenter baru data benthyciadau myfyrwyr â chofnodion budd-daliadau tai er mwyn nodi taliadau budd-dal tai a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Yn dilyn adolygiad o'r gwaith paru data, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi nodi 48 o achosion lle mae myfyrwyr naill ai wedi hawlio budd-dal tai yn dwyllodrus neu wedi cael gordaliad. Cyfanswm gwerth y gordaliad i fyfyrwyr oedd £136,000. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ordaliad ychwanegol; canlyniad hyn fyddai'r budd-daliadau yn cael caniatâd i barhau. Mae Astudiaeth achos 8 yn dangos pa mor bwysig yw'r gwaith paru hwn i awdurdodau lleol sydd â phoblogaeth fawr o fyfyrwyr.

### Astudiaeth achos 8

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** wedi cynnal adolygiad trylwyr o waith paru data rhwng data budd-dal tai a benthyciadau myfyrwyr. Arweiniodd hyn at nodi 21 o fyfyrwyr a oedd yn hawlio budd-dal tai, budd-dal y dreth gyngor, cymhorthdal incwm neu gyfuniad ohonynt nad oedd ganddynt hawl iddynt. Mae'r achosion hyn yn cynnwys:

- myfyriwr a gafodd ryddhad amodol o 12 mis ar ôl gorhawlio £3,920;
- myfyriwr a gafodd ddirwy o £135, y gorchmynnwyd iddo dalu £100 mewn costau a gordal dioddefwr o £15 ar ôl gorhawlio £4,430;
- myfyriwr a gafodd ddirwy o £380 ar ôl gor-hawlio £5,766;
- myfyrwraig a gafodd ddedfryd o 40 awr o waith di-dâl ar ôl gorhawlio £7,196;
- myfyriwr a gafodd orchymyn cyrffew â thag am ddeufis y gorchmynnwyd iddo dalu £100 mewn costau ar ôl gorhawlio £7,196.

Mae ymdrechion y Cyngor yn y maes hwn wedi nodi gordaliadau gwerth dros £80,478 ac mae wrthi'n ceisio adennill y gordaliadau.

1.31 Mae'n rhaid i unigolion wneud cais i awdurdod lleol am drwydded cyn y gallant ymgymryd â mathau o waith penodol. Gwnaeth y Fenter baru cofnodion unigolion wedi'u trwyddedu i yrru tacsi, gweithio fel gwerthwyr marchnad a gwerthu alcohol â chofnodion budd-dal tai. Mae'r gwaith paru hwn yn helpu i nodi hawlwyr budd-dal tai sydd wedi methu â datgan incwm o'u masnach neu eu cyflogaeth eu hunain, neu eu partner neu eu priod.

1.32 Arweiniodd yr ymarfer hwn at nodi 15 o achosion lle'r oedd hawlwyr budd-dal tai naill ai wedi tanddatgan incwm neu wedi methu â chrybwyll unrhyw incwm o gwbl. Roedd yr arbedion a wnaed o ran yr achosion hyn yn werth mwy na £17,000. Nid yw hyn yn cynnwys budd-daliadau a fyddai wedi cael eu talu yn y dyfodol pe na bai'r twyll na'r gordaliadau wedi cael eu darganfod. Mae'r gwaith a wneir gan ymchwilwyr budd-dal tai yn helpu i leihau twyll a gwallau yn y maes hwn. Mae nifer yr achosion o dwyll a gwallau a ganfuwyd yn y maes hwn a'u gwerth wedi lleihau'n sylweddol ers Menter Twyll Genedlaethol 2008-09 pan nodwyd twyll a gwallau gwerth £119,000 mewn 30 o achosion. Mae Astudiaeth achos 9 yn nodi sut y defnyddiodd un awdurdod y gwaith paru hwn i nodi incwm heb ei ddatgan gan yrwyr tacsi.

### Astudiaeth achos 9

Drwy waith a wnaed gan **Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** i ymchwilio i waith paru rhwng cofnodion budd-dal tai a deiliaid trwyddedau gyrwyr tacsi nodwyd pum achos o dwyll. Ym mhob achos, nid oedd yr hawlwyr wedi datgan incwm gyrwyr tacsi a oedd yn byw yn yr un cyfeiriad a fyddai wedi arwain at ddileu eu hawl i fudd-dal neu at leihau'r budd-dal a oedd yn daladwy. Cafodd dau hawliwr rybudd, ac erlynwyd trydydd achos yn llwyddiannus; cafodd yr hawliwr orchymyn gwasanaeth cymunedol o 100 o oriau a gorchmynnwyd iddo dalu costau. Yn y ddau achos arall, penderfynodd y Cyngor na fyddai erlyniad er budd y cyhoedd. Ym mhob achos, daethpwyd â'r gordaliadau i ben ac mae'r Cyngor wrthi'n ceisio adennill y gordaliadau.



1.33 Caiff data budd-dal tai ei baru â data ynglŷn â thenantiaeth tai a chofnodion budd-dal tai eraill i nodi unigolion sy'n cyflawni twyll sy'n gysylltiedig â thenantiaeth tai a/neu fudd-dal tai lle ymddengys fod unigolyn yn byw mewn dau gyfeiriad gwahanol. Nododd y Fenter wyth achos o'r fath a gordaliadau o £9,500, heb gynnwys arbedion yn y dyfodol a fyddai wedi'u sicrhau drwy atal y gordaliadau rhag parhau.

## Mae gwaith paru data cyflogres y Fenter yn parhau i roi sicrwydd i gyrff cyhoeddus ynghylch uniondeb eu gweithlu

1.34 Mae'r Fenter yn paru data cyflogres ledled sector cyhoeddus y DU â systemau'r Swyddfa Gartref er mwyn nodi achosion o gyflogeion sy'n cyflawni twyll cyflogaeth, yn torri amodau gwasanaeth neu gyfarwyddebau oriau gwaith yr UE. Gall gwaith paru cyflogres a wneir o dan y Fenter nodi unigolion:

- sydd â dwy swydd â phatrymau sifft anghydnaws, (gan amlygu pryderon ynghylch materion iechyd a diogelwch cysylltiedig);
- sy'n absennol oherwydd salwch hirdymor o un sefydliad tra'n gweithio i un arall;
- sydd â dwy swydd amser llawn;
- cyflogeion cyhoeddus sy'n geiswyr lloches aflwyddiannus neu y mae eu fisa wedi dod i ben ac felly nid oes hawl ganddynt i fyw na gweithio yn y DU.

1.35 Nodwyd 48 o achosion o ordaliadau neu dwyll drwy waith paru cyflogres Menter Twyll Genedlaethol 2010-11. Er bod gwerth ariannol y twyll a'r gordaliadau drwy'r gyflogres yn tueddu i fod yn fach (£63,000), gall y materion a nodwyd fod yn bwysig iawn. Gallant adlewyrchu pryderon o ran iechyd, diogelwch a hyder y cyhoedd. Gall y Fenter hefyd helpu sefydliadau sy'n cymryd rhan i nodi lle mae angen gwella rheolaethau system i helpu i atal twyll a gwallau. Noda Astudiaeth achos 10 enghraifft o'r fath a nodwyd ym Menter Twyll Genedlaethol 2010-11.

### Astudiaeth achos 10

Ymchwiliodd **Bwrdd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** i waith paru a oedd yn awgrymu bod gan gyflogai ddwy swydd lawn amser. Ar ôl ymchwilio ymhellach canfuwyd bod yr unigolyn yn cael ei gyflogi ar gynllun cylchdroi rhwng nifer o fyrddau iechyd yng Nghymru, ac ar ôl cwblhau'r lleoliad ei fod wedi symud i weithio mewn man arall. Fodd bynnag, methodd adran cyflogres Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro â gweithredu'r ddogfennaeth ofynnol, a pharhaodd yr unigolyn i gael ei dalu ar ôl i'w gyflogaeth ddod i ben. Arweiniodd hyn at ordalu £21,000 mewn cyflog. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi adennill y gordaliad, ac wedi rhoi gweithdrefn ddiwygiedig ar waith i atal achosion eraill yn y dyfodol.

1.36 Mae'r Fenter hefyd yn paru cofnodion cyflogres â hawliadau budd-dal tai er mwyn nodi achosion lle y gallai cyflogeion y sector cyhoeddus fod wedi hawlio budd-dal tai nad oedd ganddynt hawl iddo neu eu bod wedi cael gordaliadau budd-daliadau oherwydd nad ystyriwyd eu hincwm llawn.

1.37 Mae hwn yn waith paru pwysig oherwydd os canfyddir bod cyflogai wedi cyflawni twyll budd-dal tai, mae'n cael effaith ar lefel yr ymddiriedaeth rhwng cyflogwr a chyflogai. Gall arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn y cyflogai a, lle mae'r cyflogai mewn swydd gyfrifol, gallai godi pryderon am ei ymddygiad mewn meysydd cyflogaeth.

1.38 Ceir canlyniadau paru cofnodion cyflogres â budd-dal tai ym mharagraffau 1.27 i 1.28. Mae Astudiaethau achos 1 a 3 yn rhoi enghreifftiau lle mae cyflogwyr unigolion wedi'u cael yn euog o gyflawni twyll budd-dal tai wedi cymryd camau disgyblu ac wedi diswyddo eu cyflogeion yn y pen draw.

## Mae gwaith paru pensiwn y Fenter wedi dileu llawer o achosion o dwyll a gordaliadau pensiwn hirsefydlog yn llwyddiannus ond mae achosion newydd yn dal i gael eu nodi

**1.39** Mae'r Fenter yn paru cofnodion pensiynau â hawlwyr budd-dal tai, cofnodion pobl sydd wedi marw a chofnodion cyflogres er mwyn nodi twyll a gordaliadau posibl. Mae'r gwaith paru hwn yn gallu nodi materion megis taliadau pensiwn parhaus i bobl sydd wedi marw, incwm pensiwn heb ei ddatgan tra'n hawlio budd-dal tai a phensiynwyr yn dychwelyd i weithio'n llawn amser i'r un cyflogwr a ddylai arwain at ostwng y taliadau pensiwn.

**1.40** Cyfanswm gwerth y gordaliadau pensiwn a'r arbedion a nodwyd ar gyfer y dyfodol yn ymarfer 2010-11 oedd ychydig dros £568,000. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â thaliadau pensiwn i bobl sydd wedi marw. Cafwyd cynnydd o 56 y cant o gymharu â Menter Twyll Genedlaethol 2008-09 a nododd arbedion o £364,000. Er bod yr arbedion ariannol wedi cynyddu'n sylweddol, nid yw hyn yn golygu bod twyll yn y maes hwn yn cynyddu o reidrwydd. Yn 2008-09 nodwyd 16 o achosion o daliadau pensiwn i bobl a oedd wedi marw o gymharu â 17 yn 2010-11. Gwelir cynnydd yng ngwerth y gordaliadau ac arbedion yn y dyfodol am fod gwerth cyfartalog yr achosion wedi cynyddu. Mae'r gwaith a wneir i ymchwilio i'r achosion hyn a amlygir gan y Fenter yn atal gordaliadau mawr rhag cronni dros amser.

**1.41** Nid oes gan yr un achos a nodwyd ddyddiad marw sy'n rhagflaenu'r ymarfer blaenorol. Felly, mae nifer o daliadau pensiwn hirsefydlog i bobl sydd wedi marw wedi cael eu dileu bellach ac nid yw'r rhai sy'n cael eu nodi erbyn hyn drwy'r Fenter wedi cael eu talu am amser hir.

**1.42** Mae paru pensiynau â phobl sydd wedi marw yn enghraifft dda o ba mor llwyddiannus y gall y Fenter fod i leihau twyll yn sylweddol mewn maes sydd, yn draddodiadol, wedi bod yn agored i dwyll. Nododd ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2004-05 61 o achosion o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn cael eu talu'n anghywir yn enw pensiynwyr sydd wedi marw.

**1.43** Mae Astudiaeth achos 11 yn rhoi enghraifft o gorff sy'n talu pensiynau a ddefnyddiodd waith paru'r Fenter i atal gordaliadau rhag parhau.

**Astudiaeth achos 11**

Drwy ymchwiliad gan **Gyngor Dinas a Sir Abertawe** i waith paru rhwng cofnodion pobl sydd wedi marw a phensiynau a delir nodwyd 10 o achosion lle roedd pensiynau yn dal i gael eu talu ar ôl i bensiynwyr farw. Drwy ymchwilio i'r gwaith paru hwn yn effeithiol ar gam cynnar llwyddwyd i hysbysu gweinyddwyr y cynllun pensiwn yn gyflym a daethpwyd â'r taliadau i ben. Drwy weithredu'n ddi-oed mae'r Cyngor wedi sicrhau bod gwerth gordaliadau yn cael eu lleihau. Lle nad ymdrinnir â gwaith paru pensiynau yn effeithiol, gall gordaliadau gwerth uchel godi'n gyflym iawn.

## Mae gwaith paru data tai wedi rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol fod eu rheolaethau yn llwyddo i'w diogelu rhag twyll sy'n ymwneud â thai cymdeithasol a'r hawl i brynu

**1.44** Caiff data tenantiaeth tai ei baru â chofnodion budd-dal tai a thenantiaeth tai ledled y DU a data'r Swyddfa Gartref, er mwyn nodi achosion posibl o dwyll a gordaliadau. Gall y gwaith paru hwn nodi twyll sy'n ymwneud â thenantiaeth o geisiadau anwir am dai, eiddo sy'n cael ei is-osod yn anghyfreithlon a cheisiadau gan unigolion nad oes ganddynt hawl i dai a ddarperir gan y sector cyhoeddus.

**1.45** Ni nododd Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 unrhyw dwyll yn y maes hwn; mae hyn yn galonogol. Fodd bynnag, gan mai dim ond stoc tai awdurdodau lleol a gynhwysir yn y



Fenter, nid oes modd dod i gasgliad ynghylch a oes twyll sy'n ymwneud â thenantiaeth ym maes tai cymdeithasol a reolir gan sefydliadau eraill. Mae sawl awdurdod lleol wedi trosglwyddo eu stoc dai i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill. Byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn croesawu gweld cymdeithasau tai yn cymryd rhan yn wirfoddol yn ymarferion y Fenter yn y dyfodol.

1.46 Mae hefyd yn helpu awdurdodau lleol i nodi achosion lle mae gwybodaeth anwir wedi cael ei rhoi ar geisiadau gan denantiaid er mwyn prynu eu tŷ cyngor am bris gostyngol. Gall twyll yn y maes hwn fod yn sylweddol lle mae gostyngiadau mawr sy'n gysylltiedig â'r hawl i brynu wedi cael eu hawlio. Ni nododd Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 unrhyw dwyll yn y maes hwn.

## Mae gwaith paru'r Fenter rhwng data'r dreth gyngor a chofrestr yr etholwyr wedi sicrhau arbedion o £2.9 miliwn i bwrs y wlad

1.47 Mae talwyr y dreth gyngor yn gymwys am ostyngiad ar eu bil os mai hwy yw unig breswyliwr y cartref dros 18 oed, neu os bydd preswylwyr eraill y cartref yn perthyn i gategorïau wedi'u heithrio, myfyrwyr er enghraifft. Mae'r gostyngiad yn lleihau cost bil treth gyngor llawn sy'n daladwy ar yr eiddo 25 y cant. Cyfeirir at y gostyngiad hwn fel Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor (CTSPD) fel arfer.

1.48 Ym Menter Twyll Genedlaethol 2008-09, parwyd data CTSPD ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru am y tro cyntaf. Parwyd hawliadau am CTSPD gan bobl a ddatganodd eu bod yn byw eu hunain, â chofrestr yr etholwyr. Nododd yr ymarfer paru fod CTSPD yn cael ei hawlio lle'r oedd yr hawlydd yn byw yn yr un eiddo ag unigolyn arall ar y gofrestr etholiadol. Er nad oedd pob achos yn awgrymu hawliadau amhriodol, bu'r ymarfer yn hynod lwyddiannus. Arweiniodd Menter Twyll Genedlaethol 2008-09 at ddiddymu 1,098 o ostyngiadau anghymwys a nododd arbedion gwerth £1.2 miliwn i bwrs y wlad o ran gostyngiadau a ddyfarnwyd i bobl nad ydynt yn gymwys ynghyd ag arbedion yn y dyfodol.

1.49 Hyd yma, mae Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 wedi arwain at ddiddymu 2,016 o achosion o CTSPD ac wedi nodi arbedion gwerth £2.9 miliwn i bwrs y wlad. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys arbedion cysylltiedig yn y dyfodol yn seiliedig ar gyfartaledd yr amser mae CTSPD yn parhau i gael eu talu. Disgwylir i'r ffigur hwn gynyddu ymhellach gan nad yw'r dadansoddiad o'r CTSPD wedi'i gwblhau eto.

1.50 Mae awdurdodau lleol wedi nodi 85 y cant yn fwy o achosion na'r ymarfer blaenorol. Mae'r gordaliad cyfartalog a nodwyd fesul achos hefyd wedi cynyddu. Awgryma ein hadolygiad o ganlyniadau'r Fenter fod y cynnydd yn nifer yr hawliadau am CTSPD a ddiddymwyd a gordaliadau a nodwyd o ganlyniad i ymdrech gynyddol gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i ymchwilio i waith paru data CTSPD o dan y Fenter. Mewn gwrthgyferbyniad i'r ymarfer diwethaf, mae llawer o awdurdodau lleol wedi gwneud mwy o ymdrech i ganfod ers pryd mae hawlwyr hirsefydledig wedi bod yn anghymwys am y gostyngiad. Mewn sawl achos, roedd yr hawliwr yn gymwys ar adeg gwneud cais, ond methodd â datgan newidiadau yn ei amgylchiadau personol. Mae ymdrech awdurdodau lleol i ganfod dyddiadau newidiadau mewn amgylchiadau wedi galluogi awdurdodau lleol i adennill gostyngiadau anghymwys mewn blynyddoedd blaenorol yn hytrach nag atal y gostyngiad yn y dyfodol.

1.51 Mae awdurdodau lleol yn adennill 86 y cant o'r gostyngiad a ddyfarnwyd yn anghywir. Yn ogystal â hyn, mae awdurdodau lleol wedi canfod bod rhai unigolion a hawliodd y gostyngiad yn amhriodol, hefyd wedi

hawlio budd-daliadau eraill yn amhriodol. Mae Astudiaeth achos 12 yn nodi sut mae un awdurdod wedi paru'r CTSPD/cofrestr yr etholwyr fel rhan allweddol o'i ddull o reoli'r CTSPD.

**Astudiaeth achos 12**

Cynhaliodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** ymarfer cynhwysfawr i adolygu gwaith paru data rhwng cofrestr yr etholwyr a chofnodion y dreth gyngor. Nod y gwaith paru hwn yw nodi pobl sy'n hawlio CTSPD nad oes ganddynt hawl iddo. Mae'r rhai sy'n cael CTSPD yn cael gostyngiad o 25 y cant ar eu bil treth gyngor. Anfonwyd llythyrau at 1,547 o hawlwyr CTSPD i gadarnhau a oedd ganddynt hawl o hyd i'r CTSPD. Cymerwyd camau dilynol yn dibynnu ar yr ymateb. O ganlyniad i hyn cafodd 677 o geisiadau eu tynnu'n ôl neu eu diddymu. Mae'r Cyngor wedi mynd ati i geisio cadarnhau dyddiad gweithredol unrhyw newid a all fod wedi effeithio ar eu hawl i'r gostyngiad, a drwy hyn mae wedi llwyddo i nodi gordaliadau mewn blynyddoedd blaenorol hefyd.

### Drwy baru data ar daliadau credydwyr mae'r Fenter wedi helpu i nodi £225,000 o ordaliadau i gredydwyr

1.52 Nod y gwaith paru yw helpu cyrff cyhoeddus i nodi problemau megis anfonebau dyblyg neu gyfraddau TAW anghywir. Mae hefyd yn galluogi cyrff cyhoeddus i amlygu diffygion yn eu systemau a allai eu gwneud yn agored i dwyll neu wallau.

1.53 Mae Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 wedi nodi gordaliadau o £225,000; mae'r gordaliadau hyn wedi cael eu hadennill neu'n cael eu hadennill lle y bo modd. Nododd yr ymarfer blaenorol ordaliadau gwerth £372,000. Gellir priodoli'r gostyngiad mewn gordaliadau yn rhannol i'r ffaith bod cyrff cyhoeddus wedi gwella eu rheolaethau talu o ganlyniad i faterion a nodwyd yn ymarferion blaenorol y Fenter.

### Mae'r adolygiad o waith paru'r Fenter wedi arwain at ddileu 1,135 o fathodynnau glas a 5,522 o gardiau teithio rhatach yn gysylltiedig â phobl sydd wedi marw

1.54 O dan y Fenter parwyd bathodynnau glas a chardiau teithio rhatach â chofnodion pobl sydd wedi marw. Nod y gwaith paru yw nodi bathodynnau a chardiau a allai fod yn cael eu defnyddio ar ôl i'r perchennog cofrestredig farw. Caiff cofnodion bathodynnau glas eu paru hefyd i nodi achosion lle mae deiliaid bathodynnau glas wedi cael bathodynnau gan fwy nag un awdurdod lleol.

1.55 Mae bathodynnau glas yn darparu nifer o gonsesiynau parcio ac maent yn gymorth mawr i bobl sydd â phroblemau symudedd difrifol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y bathodynnau'n cael eu diddymu pan fydd y deiliad yn marw. Gall methu â gwneud hyn arwain at y bathodynnau'n cael eu defnyddio gan bobl nad oes hawl ganddynt iddynt.

1.56 Mae'n drosedd arddangos bathodyn glas er mwyn osgoi taliadau parcio neu er mwyn cael lle parcio ffafriol pan nad gyrrwr y car neu'r teithiwr yw perchennog dilys y bathodyn. Nid yw hyn yn atal twyllwyr rhag targedu'r cynllun, a gellir gwerthu bathodynnau glas am swm mawr o arian. O ganlyniad i'r twyll hwn mae'r awdurdod lleol yn colli refeniw parcio, ond mae hefyd yn golygu na all deiliaid bathodyn glas dilys gael lleoedd parcio.

1.57 Mae'r gwaith paru wedi arwain at ddiddymu 1,135 o fathodynnau glas ledled Cymru. Unwaith y caiff bathodynnau eu diddymu, mae'n bosibl i awdurdodau lleol sicrhau nad yw'r bathodynnau a ddiddymwyd yn cael eu defnyddio mwyach. Yn sgîl cyflwyno bathodynnau glas plastig newydd yng Nghymru bydd modd i'r heddlu a wardeiniaid parcio wirio bathodynnau glas yn erbyn cronfa ddata genedlaethol i gadarnhau eu bod yn ddilys.



1.58 Mae cynllun cardiau teithio rhatach Cymru yn rhoi'r hawl i bawb 60 oed a throsodd a phobl sydd ag anableddau deithio ar fysiau am ddim ledled Cymru. Lle mae perchnogion cardiau teithio rhatach wedi marw, ni hysbysir yr awdurdod lleol bob amser a gall y cerdyn barhau i gael ei ddefnyddio. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i dwyllwyr osgoi costau teithio. O ganlyniad i waith a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Cymru i adolygu'r gwaith paru, cafodd 5,522 o gardiau eu diddymu.

1.59 Mae'n anodd mesur y refeniw ychwanegol y bydd awdurdodau yn ei gynhyrchu o ganlyniad i ddiddymu bathodynnau glas a chardiau teithio rhatach gan nad yw'n hysbys faint o'r bathodynnau neu'r cardiau teithio rhatach hyn a ddiddymwyd a fyddai wedi cael eu defnyddio'n dwyllodrus. Yn 2011, amcangyfrifodd yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol fod camddefnyddio bathodynnau glas wedi arwain at golledion blynyddol o £46 miliwn[4] o ran refeniw a gollwyd yn Lloegr yn unig. At hynny, mae'r Awdurdod Twyll Cenedlaethol wedi amcangyfrif bod un o bob pum bathodyn glas a ddosbarthwyd yn Lloegr yn cael ei gamddefnyddio.

1.60 Mae Astudiaeth achos 13 yn rhoi enghraifft o awdurdod sydd wedi cynnal adolygiad o waith paru'r Fenter i atal y camddefnydd posibl o gardiau teithio rhatach ar fysiau a bathodynnau glas.

**Astudiaeth achos 13**

Adolygodd **Cyngor Bro Morgannwg** gryn dipyn o waith paru rhwng cardiau teithio rhatach ar fysiau, trwyddedau parcio i bobl anabl (bathodynnau glas) a phobl sydd wedi marw. Gall y gwaith paru hwn helpu i nodi cardiau bws a bathodynnau glas sy'n dal i gael eu defnyddio ar ôl i'r deiliad farw. O ganlyniad i'w adolygiad, llwyddodd y Cyngor i ddiddymu 1,180 o gardiau bws a 274 o fathodynnau glas er mwyn atal defnydd twyllodrus. Ni ddosbarthwyd unrhyw gardiau bws na bathodynnau glas newydd ar ôl marwolaeth y perchennog ac erbyn hyn mae'r Cyngor wedi cyflwyno rheolaethau system ychwanegol i leihau'r risg y bydd cardiau teithio rhatach ar fysiau a bathodynnau glas yn parhau i gael eu defnyddio ar ôl marwolaeth y perchennog.

## Mae gwaith paru hawliadau yswiriant a wneir yn erbyn awdurdodau lleol wedi rhoi sicrwydd nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru wedi wynebu twyll yswiriant gan hawlwyr mynych

1.61 Mae tystiolaeth anecdotaidd wedi awgrymu bod twyllwyr yn targedu awdurdodau lleol drwy gyflwyno hawliadau yswiriant am anafiadau personol i sawl awdurdod lleol. Felly, cyflwynwyd gwaith paru o dan Fenter 2006-07 a oedd yn paru hawliadau yswiriant holl awdurdodau lleol y DU.

1.62 Ni nodwyd unrhyw achosion arfaethedig o dwyll yswiriant yn erbyn awdurdodau lleol gan y gwaith paru hwn. Mae hyn wedi rhoi sicrwydd bod twyll yswiriant yn erbyn awdurdodau lleol yng Nghymru yn anghyffredin.

4 Awdurdod Twyll Cenedlaethol, Dangosydd Twyll Blynyddol, Mawrth 2012

### Mae gwaith paru data'r Fenter wedi nodi pedwar achos lle parhaodd awdurdod lleol i dalu am ofal preswyl er bod y preswylwyr wedi marw

**1.63** Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall awdurdodau lleol gyfrannu at gost gofal pobl sy'n byw mewn cartrefi preswyl preifat. Mae'r Fenter yn paru taliadau gan awdurdodau lleol am ofal preswyl â phobl sydd wedi marw. O ganlyniad i waith paru'r Fenter, llwyddodd awdurdodau lleol i ddiweddaru eu cofnodion mewn perthynas â phum achos lle nad oeddent wedi eu hysbysu am farwolaeth y preswylydd, a thrwy hynny sicrhau y daethpwyd â'r taliadau i ben. Os bydd taliadau yn parhau i gael eu gwneud ar ôl i breswylydd farw, gall gordaliadau sylweddol gronni. Mae Astudiaeth achos 14 yn rhoi enghraifft o ymchwiliad gan awdurdod lleol i waith paru cartrefi preswyl preifat gan y Fenter.

**Astudiaeth achos 14**

Ymchwiliodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** i waith paru a oedd yn ymddangos fel petai taliadau yn cael eu gwneud i gartref gofal preswyl preifat mewn perthynas â rhywun a oedd wedi marw. Ar ôl ymchwilio ymhellach cadarnhawyd nad oedd y cartref gofal wedi hysbysu'r awdurdod lleol am farwolaeth y preswylydd. Parhaodd y taliadau am tua phum mis ar ôl marwolaeth y preswylydd, gan arwain at ordaliad o £3,991. Os nad oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r mater gallai'r gordaliad fod wedi cynyddu. Mae'r Cyngor wrthi'n adennill y gordaliad oddi wrth y cartref gofal.

## Mae cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi bod yn cymryd rhan yn y Fenter, wedi bod yn fwy rhagweithiol o ran adolygu'r gwaith paru data

**1.64** Yn adroddiad 2008-09, nododd yr Archwilydd Cyffredinol er bod gwelliant yn y ffordd roedd awdurdodau yn gweithio gyda gwaith paru data'r Fenter, bod amrywiaeth o hyd yn ymrwymiad cyrff unigol i ymchwilio i'r gwaith paru.

**1.65** Mae archwilwyr wedi adolygu'r gwaith a wnaed gan awdurdodau i sicrhau'r defnydd gorau o waith paru Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 ac wedi canfod bod bron bob un sy'n cymryd rhan wedi datblygu ffordd effeithiol o reoli'r Fenter ac adolygu gwaith paru data erbyn hyn. Mae ymrwymiad y cyrff i ymchwilio i'r gwaith paru data wedi gwella, ac ar y cyfan maent yn fwy rhagweithiol o ran ymchwilio i'r holl wahanol fathau o baru data. Mae gan y rhan fwyaf dimau hynod brofiadol bellach sy'n gyfrifol am adolygu pob un o'r gwahanol fathau o baru data.

**1.66** Mae Astudiaeth achos 15 yn amlygu'r gwaith a wnaed gan un awdurdod lleol i wneud y defnydd gorau o waith paru data er mwyn nodi gordaliadau.



## Astudiaeth achos 15

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** wedi bod yn drylwyr iawn o ran ei ymchwiliadau i waith paru'r Fenter ac arweiniodd hyn at nodi ac atal sawl gordaliad twyllodrus. Ers adroddiad blaenorol y Fenter, mae Caerffili wedi adennill neu wrthi'n adennill £117,000 o ordaliadau, ac mae wedi llwyddo i erlyn wyth twyllwr.

Mae'r Cyngor wedi cyflawni hyn drwy fynd ati mewn ffordd gynhwysfawr i adolygu gwaith paru'r Fenter ac ymchwilio iddo. Mae'r Cyngor wedi neilltuo adnoddau penodol i ymchwilio i waith paru data, a chaiff pob math o waith data ei ystyried gan staff sy'n meddu ar sgiliau ac arbenigedd yn y maes hwnnw. Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir y ffordd y dylid adolygu gwaith paru data a'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan y rhai sy'n ymchwilio iddo. Caiff gwaith paru data risg uchel ei adolygu fel blaenoriaeth ac mae'r Cyngor wedi gosod terfynau amser ar gyfer cwblhau'r gwaith. Caiff yr holl waith ei gofnodi ar adnodd gwe'r Fenter. Mae Prif Ymchwilydd Menter Twyll Genedlaethol y Cyngor yn monitro hynt y gwaith yn rheolaidd.

Mae'r Cyngor yn cydweithredu â sefydliadau eraill i sicrhau y gellir cael gafael ar wybodaeth berthnasol i gynorthwyo ymchwiliadau. Lle amheuir twyll, mae'r Cyngor yn mabwysiadu ymagwedd dim goddefgarwch, ac mae'n cymryd camau cadarn. Caiff twyllwyr eu herlyn neu rhoddir rhybudd ffurfiol neu gosb weinyddol iddynt yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol iddynt ad-dalu'r arian a gafwyd drwy dwyll.

# Rhan 2 - Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn parhau i gael ei datblygu er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol

**2.1** Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu'r her o orfod darparu gwasanaethau darbodus, effeithlon ac effeithiol mewn cyfnod economaidd anodd ac yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol mawr.

**2.2** Mae twyll yn gwbl annerbyniol ble bynnag a phryd bynnag mae'n codi. Pan gyflawnir twyll yn erbyn cyrff cyhoeddus mae hynny'n anochel yn effeithio fwyaf ar y rhai sy'n dibynnu ar gymorth cyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau hollbwysig. Nid yw'r rhai sy'n cyflawni twyll yn meddwl am effaith eu gweithredoedd, neu nid ydynt yn poeni dim. Mae'n hollbwysig bod cyrff cyhoeddus a'u harchwilwyr yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i atal a chanfod twyll sy'n digwydd er mwyn sicrhau y gwneir defnydd da o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys:

- meithrin diwylliant dim goddefgarwch o ran twyll;
- sicrhau bod rheolaethau trylwyr yn cael eu rhoi ar waith i atal twyll rhag digwydd;
- rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill i helpu i drechu twyll ym mhob sector;
- defnyddio adnoddau effeithiol i ganfod trafodion twyllodrus;
- rhoi cosbau llym i unrhyw un y canfyddir ei fod wedi cyflawni twyll.

**2.3** Mae'r Fenter yn un adnodd pwysig sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru i'w ddefnyddio fel rhan o strategaeth atal a chanfod twyll ehangach. Bu'n adnodd effeithiol iawn o ran atal a chanfod twyll yn erbyn y sector cyhoeddus ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag mae mathau o dwyll yn newid dros amser. Mae tueddiadau newydd o ran twyll yn dod i'r amlwg ac mae'r twyllwyr eu hunain yn newid eu harferion er mwyn targedu meysydd lle ceir y rheolaethau gwannaf, yn eu tyb hwy, i atal a/neu ganfod eu gweithgareddau twyllodrus. Felly mae'n rhaid i'r Fenter ymaddasu a datblygu er mwyn parhau'n effeithiol. Mae'n rhaid i'r Fenter ymateb i dueddiadau newydd a newidiadau mewn polisi, a chyflwyno mathau newydd o waith paru data mewn meysydd lle gallai twyll ddigwydd.

**2.4** Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi'r meysydd allweddol canlynol ar gyfer cynnal y Fenter, ei datblygu a'i gwella yn y dyfodol:

- datblygu trefniadau cydweithredu cadarn â'r corff a fydd yn olynu'r Comisiwn Archwilio sy'n cynnal y Fenter yn Lloegr;
- cynyddu nifer y sefydliadau yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn y Fenter;
- ymestyn y Fenter i feysydd newydd lle y gallai twyll ddigwydd;
- trawsnewid y Fenter o adnodd canfod twyll i adnodd atal a chanfod twyll;
- sicrhau y caiff safonau uchel presennol diogelwch data'r Fenter eu cynnal.



## Bydd angen datblygu trefniadau cydweithredu cadarn â'r corff a fydd yn olynu'r Comisiwn Archwilio sy'n cynnal y Fenter yn Lloegr

**2.5** Ym mis Awst 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phenderfyniad i ddiddymu'r Comisiwn Archwilio. Y Comisiwn Archwilio sy'n gyfrifol am y Fenter yn Lloegr. Gan fod y Fenter yn cael ei chynnal fel ymarfer cydweithredol ledled y DU, mae i'r penderfyniad hwn oblygiadau pwysig o ran ei dyfodol. Pe bai'n dod i ben yn Lloegr, byddai hynny'n tanseilio effeithiolrwydd yr ymarfer yn sylweddol ar sail weithredol ac ar sail cost.

**2.6** Ym mis Ionawr 2012, nododd Llywodraeth y DU yn ei dogfen ymgynghori, *The Future of Local Audit*, y byddai'r Fenter yn parhau ar ôl diddymu'r Comisiwn Archwilio. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn croesawu'r cyhoeddiad hwn. Nid yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi eto sut y bwriada i'r Fenter barhau yn Lloegr. Unwaith y bydd y trefniadau yn y dyfodol yn gliriach, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn anelu at ddatblygu trefniadau cydweithredol cadarn, fel gyda'r Comisiwn Archwilio yn y gorffennol, gyda'r sefydliad a fydd yn cynnal y Fenter yn Lloegr. Mae angen gwneud hynny er mwyn sicrhau bod y Fenter yn parhau i ddatblygu mewn ffordd sydd er budd Cymru.

## Mae angen cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn y Fenter er mwyn sicrhau buddiannau mwyaf posibl yr ymarfer

**2.7** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter o dan ddarpariaethau Adran 64A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data er mwyn atal a chanfod twyll sy'n digwydd yng Nghymru neu sy'n gysylltiedig â Chymru. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ofyn i awdurdodau lleol a chyrff y GIG gymryd rhan mewn ymarferion paru data ac mae wedi'i gwneud yn ofynnol i holl awdurdodau unedol, yr heddlu, tân a gwasanaethau prawf a chyrff y GIG yng Nghymru gymryd rhan yn y Fenter. Gall y ddeddfwriaeth hefyd ei gwneud yn bosibl i sefydliadau eraill, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gymryd rhan yn wirfoddol mewn ymarferion paru data a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd yn cymryd rhan yn wirfoddol yn y Fenter ac mae eu hymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll drwy gymryd rhan yn y gwaith o baru data yn gymeradwy. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cymryd rhan yn y Fenter yn wirfoddol.

**2.8** Mae nifer y sefydliadau sy'n cyfrannu at y Fenter yn cael effaith uniongyrchol ar ei heffeithiolrwydd. Gorau po fwyaf sy'n cymryd rhan gan y bydd mwy o setiau data ar gael i'w paru a fydd yn ei dro yn rhoi mwy o gyfle i nodi achosion o dwyll.

**2.9** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dymuno ymestyn nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn y Fenter i gymaint o gyrff cyhoeddus yng Nghymru â phosibl ac mae'n annog yr holl gyrff a ariennir yn gyhoeddus i gymryd rhan yn wirfoddol. Mae rhai cyrff cyhoeddus yng

Nghymru nad ydynt wedi cymryd rhan yn y Fenter hyd yma wedi mynegi diddordeb mewn gwneud hynny yn ddiweddar. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gweithio gyda'r cyrff hyn gyda'r nod o'u cael i gymryd rhan yn ymarfer nesaf y Fenter a fydd yn dechrau ym mis Hydref 2012. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwahodd unrhyw sefydliad â diddordeb mewn cymryd rhan i gysylltu â'i swyddfa i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r hyn sydd ynghlwm wrth y Fenter a beth yw'r manteision.

2.10 Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru hefyd yn cael mwy o fudd gan y Fenter pan fydd cyrff cyhoeddus mewn rhannau eraill o'r DU yn cymryd rhan yn yr ymarfer. Nid yw twyllwyr yn parchu ffiniau daearyddol. Mae cyrff llywodraeth leol a'r GIG yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan yn y Fenter ar hyn o bryd, fel y mae nifer o adrannau llywodraeth Gogledd Iwerddon.

2.11 Mae nifer adrannau'r llywodraeth yn Lloegr sy'n darparu gwybodaeth i'w defnyddio yn y Fenter wedi cynyddu'n raddol. Cyflwynwyd rhywfaint o ddata i'w ddefnyddio yn y Fenter gan yr Asiantaeth Briffyrdd, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Gartref.

2.12 Fodd bynnag, siomedig fu nifer adrannau'r Llywodraeth yn Lloegr sy'n cymryd rhan ar y cyfan. Gweinyddir y Fenter yn Lloegr gan y Comisiwn Archwilio. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd y Comisiwn Archwilio yn cael ei ddiddymu, ac y bydd y cyfrifoldeb am weinyddu'r Fenter yn cael ei drosglwyddo i fan arall. Mae'n bosib y cynhelir gwaith y Fenter yn y dyfodol o fewn adran yn y llywodraeth. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gobeithio y bydd llywodraeth y DU yn defnyddio'r cyfle yma i annog holl adrannau'r llywodraeth i gymryd rhan yn y Fenter.

2.13 Ym Menter Twyll Genedlaethol 2010-11, cyflwynodd dros 80 o sefydliadau yn y sector preifat yn y DU ddata cyflogres a/neu bensiynau yn wirfoddol i'r Fenter. Mae llawer o'r sefydliadau hyn yn gweithredu ledled y DU ac mae ganddynt swyddfeydd yng Nghymru. Mae'r data hwn gan y sector preifat wedi helpu i nodi unigolion a fethodd â datgan eu pensiynau neu eu henillion cyflogaeth wrth hawlio budd-daliadau oddi wrth awdurdodau lleol. Mae'r ymarfer hefyd o fudd i gyflogwyr y sector preifat a'u cynlluniau pensiwn gan y gall nodi materion fel taliadau pensiwn yn enw pensiynwyr sydd wedi marw a chyflogeion nad oes ganddynt hawl i aros neu weithio yn y DU. Mae hefyd yn fodd i amlygu ymddygiad anonest cyflogeion. Mae cyflwyno paru data ar adeg gwneud cais y cyfeirir ato ym mharagraffau 2.18 a 2.19, yn debygol o fod yn fuddiol iawn i sefydliadau yn y sector preifat o ran atal ceisiadau twyllodrus am gredyd a gwasanaethau eraill.

## Mae angen i'r Fenter barhau i ymestyn i feysydd newydd o'r gwasanaethau cyhoeddus lle y gallai twyll ddigwydd

2.14 Mae angen i'r Fenter barhau i ddatblygu mewn meysydd newydd lle y gallai twyll ddigwydd, a hynny oherwydd lle mae twyllwyr yn gwybod bod rheolaethau gwrth-dwyll yn gryf mewn rhai meysydd, byddant yn targedu'r meysydd hynny sydd, yn eu barn hwy, yn wannach.

2.15 Mae'r Comisiwn Archwilio, mewn cydweithrediad â'r Archwilydd Cyffredinol, wedi cynnal cynlluniau peilot paru data posibl newydd neu mae wrthi'n gwneud hynny. Ymhlith y rhain mae gwaith paru wedi'i gynllunio i helpu i ganfod:



- Unigolion ar restrau aros awdurdodau lleol ar gyfer tai cymdeithasol ond nad oes ganddynt hawl i gael cartref. Nod y gwaith paru hwn yw atal twyllwyr rhag cael cartref nad oes ganddynt hawl i'w gael ar draul y rhai y mae gwir angen cartref arnynt.
- Unigolion sydd wedi gwneud cais am fathodynnau glas gan fwy nag un awdurdod lleol.
- Unigolion sy'n cael gwasanaethau neu gyflogaeth yn y sector cyhoeddus nad oes ganddynt hawl i'w cael drwy ddefnyddio cyfeiriadau swyddfeydd rhithwir i gelu'r ffaith nad oes ganddynt hawl.

**2.16** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried datblygu sawl ymarfer paru data sy'n benodol i Gymru o fewn meysydd y Fenter lle mae polisi yng Nghymru yn wahanol i bolisi yn Lloegr. Mae aelodau o staff yr Archwilydd Cyffredinol wedi cael trafodaethau'n ddiweddar gyda swyddogion Llywodraeth Cymru o ran y posibilrwydd o gynnal ymarfer paru data i helpu i nodi ceisiadau twyllodrus am gyllid myfyrwyr. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal ymarfer peilot sy'n paru ceisiadau am grantiau 'atodol' â chofrestr etholwyr y DU i nodi myfyrwyr nad ydynt yn preswylio yng Nghymru a all fod wedi gwneud cais anghywir am grant fel myfyriwr sy'n preswylio yng Nghymru.

## Mae angen i'r Fenter gael ei datblygu i helpu cyrff cyhoeddus i atal twyll yn ogystal â'u helpu i'w ganfod

**2.17** Ers i'r Fenter ddechrau yn 1996 bu'n hynod lwyddiannus o ran helpu cyrff cyhoeddus i ganfod twyll a oedd wedi digwydd. Er bod hyn wedi sicrhau arbedion ariannol sylweddol i bwrs y wlad, gwell o lawer fyddai atal twyll rhag digwydd yn lle cyntaf. Mae'r Fenter yn cael ei chynnal bob dwy flynedd ar hyn o bryd. Golyga hyn y gall achos o dwyll a ganfuwyd drwy'r Fenter fod wedi mynd rhagddo heb ei ganfod am ddwy flynedd.

**2.18** Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiwn Archwilio, ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, wedi bod yn treialu ymarfer paru data hyblyg ar adeg gwneud cais gyda'r nod o ymgorffori'r gwasanaeth hwn yn y Fenter. Byddai paru data ar adeg gwneud cais yn ei gwneud yn bosibl i gorff cyhoeddus wirio gwybodaeth a roddwyd gan ymgeiswyr am fudd-daliadau, nwyddau neu wasanaethau er mwyn cadarnhau a yw'r wybodaeth a roddwyd ar y cyd â'u cais yn gywir. Câi hyn ei wneud drwy gymharu'r wybodaeth a roddwyd â setiau data eraill ar adeg gwneud y cais.

**2.19** Drwy baru data ar adeg gwneud cais, byddai'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Fenter yn gallu nodi anghysondeb a allai awgrymu twyll cyn i gais am wasanaethau gael ei gymeradwyo. Gallai hyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi twyll mewn amrywiaeth eang o feysydd. Yn eu plith mae'r canlynol:

- rhestrau aros am dai - drwy gyflwyno manylion unigolion ar frig y rhestr neu'n agos i'r brig i'w paru â data mewnfudo Asiantaeth Ffiniau'r DU er mwyn cadarnhau a oes ganddynt hawl i dai cymdeithasol cyn cynnig tenantiaeth;

- cyflogres - drwy gyflwyno manylion ymgeiswyr am swydd i'w paru â data mewnfudo Asiantaeth Ffiniau'r DU er mwyn cadarnhau bod ganddynt hawl i weithio cyn cynnig cyflogaeth (mae hyn hefyd yn gymwys i asiantaethau recriwtio);
- budd-daliadau tai - drwy gyflwyno manylion hawlwyr budd-dal i'w paru â chofnodion manylion adnabod a ddelir gan yr heddlu Metropolitan y gwyddys eu bod yn ffug/wedi'u dwyn cyn rhoi budd-daliadau;
- bathodynnau glas - drwy gyflwyno'r cais i'w baru â chofnodion pobl sydd wedi marw cyn rhoi'r bathodyn.

**2.20** Bu ymarferion peilot o baru data ar adeg gwneud cais yn llwyddiannus o ran atal twyll ac mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu ymgynghori â'r rhai a gymerodd ran i sicrhau bod cyfleusterau paru ar adeg gwneud cais ar gael i bawb sy'n cymryd rhan fel rhan o'r Fenter.

## Mae'n rhaid cynnal safonau uchel presennol diogelwch data'r Fenter

**2.21** Mae hyder y cyhoedd yn niogelwch y data a gedwir gan y Fenter yn allweddol i'w llwyddiant. Mae rheolaethau cadarn dros ben ar waith i sicrhau diogelwch data ac i leihau'r posibilrwydd bod pobl yn cael gafael ar ddata yn amhriodol. Mae'r rheolaethau hyn yn cynnwys:

- amgryptiad data awtomatig wrth lanlwytho data i'r Fenter;
- rheolaethau i sicrhau mai dim ond y rhai sydd ei angen fydd â hawl i weld y data;
- mesurau diogelwch ar waith i ddiogelu'r amgylchedd ffisegol lle cedwir y data.

**2.22** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod bod angen nid yn unig i ddata gael ei brosesu'n gyfreithlon ac yn ddiogel, ond bod angen hefyd i bobl weld mai felly y mae hi. At hynny, fel y daw seibrymosodiadau yn fwy soffistigedig, mae'n rhaid i'r Fenter ddefnyddio'r dechnoleg fwyaf blaenllaw sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiad hwn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i sicrhau bod y safonau diogelwch uchaf yn parhau i gael eu cymhwyso wrth i'r Fenter ddatblygu.

**2.23** Er mwyn sicrhau bod rheolaethau diogelwch yn addas at y diben, yn 2009, aeth y Comisiwn Archwilio ati gyda chefnogaeth yr Archwilydd Cyffredinol, i ymgysylltu'n wirfoddol ag ymgynghorwyr allanol i adolygu cydymffurfiaeth y Fenter â safonau gwybodaeth perthnasol y llywodraeth. Llwyddo yn yr adolygiad a wnaeth y Fenter, a chaiff ei hailachredu bob blwyddyn i drafod, storio a phrosesu gwybodaeth i'r lefelau dosbarthiadol sy'n ofynnol gan adrannau llywodraeth. Bu'r achrediad mwyaf diweddar ym mis Rhagfyr 2011.

**2.24** O ystyried datblygiadau ym mhroses y Fenter a risgiau sy'n dod i'r amlwg drwy'r amser, mae angen o hyd i adolygu'r amgylchedd diogelwch yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith yn parhau i fod yn ddigon cadarn. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, y Comisiwn Archwilio, Audit Scotland, Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnal adolygiadau diogelwch o'r Fenter ar y cyd ar sail gylchol er mwyn sicrhau bod y Fenter yn parhau i gyrraedd safonau diogelwch llym (ISO27001/2). Mae'r adolygiadau hyn wedi cadarnhau bod rheolaethau diogelwch yn gadarn. Lle gwneir argymhellion i wella'r trefniadau diogelwch, sefydlir trefniadau monitro i sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn effeithiol.



2.25 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol iawn bod paru data personol yn fater sensitif iawn. Yn 2008, paratôdd yr Archwilydd Cyffredinol God Ymarfer Paru Data (y Cod) fel sy'n ofynnol o dan ddarpariaethau Deddf Troseddu Difrifol 2007. Ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd, cyflwynwyd y Cod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd. Mae i'r Cod statws statudol a'i nod yw sicrhau bod manylion pobl yn cael eu diogelu a'u prosesu'n briodol yn ystod ymarferion paru data, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac arfer gorau.

2.26 Wrth ystyried ymestyn y Fenter i feysydd newydd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i gydbwyso preifatrwydd gwrthrychau'r data â'r buddiannau posibl sydd i'w cyflawni drwy'r ymarfer paru data. Dim ond mewn meysydd lle y mae risg sylweddol o dwyll y bydd yr Archwilydd Cyffredinol felly yn ystyried gwaith paru newydd o dan y Fenter.

# Atodiad 1 – Sut mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithio

Yn 1996, lansiodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Lloegr y Fenter er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i baru gwybodaeth am hawlwyr ar draws meysydd gwasanaeth gwahanol a ffiniau daearyddol. Bu'r ymarfer yn llwyddiannus ac ers hynny fe'i cynhaliwyd bob dwy flynedd, gan gyflwyno cyfranogwyr newydd a modiwlau newydd ar gyfer nodi twyll a gordaliadau ym mhob ymarfer newydd. Mae wedi ymsefydlu fel yr ymarfer mwyaf yn y DU i ganfod twyll yn y sector cyhoeddus. Ers 1996, mae wedi canfod twyll a gordaliadau gwerth dros £22 miliwn yng Nghymru, a bron £939 miliwn ledled y DU.

Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Fenter yn rhoi data sy'n ymwneud â'u systemau ariannol i'r Comisiwn Archwilio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn eang ei chwmpas ac yn cynnwys data sy'n ymwneud â budd-daliadau tai, pobl sy'n cael benthyciadau myfyrwyr, taliadau cyflogresi a thaliadau pensiwn. Caiff y data a ddarperir ei fewnbynnu i gronfa ddata ganolog y Comisiwn Archwilio a gynlluniwyd i baru gwahanol setiau data at ddibenion nodi hawliadau a thaliadau twyllodrus neu wallus. Os caiff data ei baru, gall ddynodi bod anghysondeb y mae angen ymchwilio iddo ymhellach; nid yw'n dystiolaeth o dwyll ynddo'i hun.

Rhoddir adroddiadau i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan sy'n cynnwys yr achosion o baru sy'n berthnasol i'w sefydliad a hwy sy'n gyfrifol am ddadansoddi'r achosion hynny o baru. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan adolygu'r achosion o baru mewn ffordd briodol a chymesur er mwyn eu galluogi i ddileu paru cyd-ddigwyddiadol. Mae'n rhaid iddynt ddefnyddio tystiolaeth o nifer o ffynonellau eraill i gynnal ymchwiliadau priodol er mwyn penderfynu a yw achosion unigol o baru wedi codi oherwydd hawliad neu daliad twyllodrus. Mewn sawl achos, caiff data ei baru oherwydd gwallau yn y data, ac oherwydd bod y Fenter wedi tynnu sylw at y mater, mae'n rhoi cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan gywiro neu ddiweddaru'r data a gedwir yn eu cofnodion.

Cofnodir canlyniadau'r ymchwiliadau gan aelodau priodol o staff. Lle y canfyddir taliadau neu ordaliadau twyllodrus, cofnodir gwerth y trafodion hynny a rhoddir y wybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol.

Trosglwyddir setiau data gan y rhai sy'n cymryd rhan i'r Comisiwn Archwilio drwy ddefnyddio proses drosglwyddo electronig sy'n amgryptio data wrth ei lanlwytho. Trosglwyddir y data drwy wefan ddiogel y Fenter, a throsglwyddir yr holl achosion o baru yn ôl i'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr un modd. Rheolir mynediad i'r adnodd ac achosion o baru gan y Fenter drwy gyfrinair, ac mae rheolaethau llym yn bodoli er mwyn sicrhau y darperir mynediad i unigolion priodol.

Mae archwilwyr yn adolygu'r cynnydd a wneir gan y rhai sy'n cymryd rhan, ac yn rhoi canllawiau a chyngor i archwilwyr fel y bo angen.

## Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad
**PAC(4) 08-12 – Papur 2**

**Ymateb i’r Adroddiad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**

Rydym yn croesawu canfyddiadau’r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i’w saith argymhelliad.

**Argymhelliad 1:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau atodol i holl gyrff y GIG yng Nghymru yn nodi’n glir na ddylid defnyddio’r polisi diogelu amser bwyd i atal perthnasau a gofalwyr rhag cynorthwyo cleifion i fwyta, ac os yw perthnasau a gofalwyr am gynorthwyo amser bwyd, dylai staff ar y ward eu hannog i wneud hynny.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae llythyr gan y Prif Swyddog Meddygol / Prif Swyddog Nyrsio wedi cael ei anfon i gyrff y GIG yng Nghymru yn nodi’n glir na ddylid defnyddio’r polisi diogelu amser bwyd i atal perthnasau a gofalwyr rhag cynorthwyo cleifion i fwyta, ac y dylai perthnasau a gofalwyr – os ydynt am gynorthwyo amser bwyd – gael eu hannog i wneud hynny gan staff ar y ward. Hefyd caiff enghreifftiau o’r arferion gorau yng Nghymru eu casglu a’u dangos ar y wefan Fframwaith Maeth ac Arlwyo mewn Ysbytai, sy’n seiliedig ar ‘Iechyd yng Nghymru’, porth i sefydliadau GIG Cymru, Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru (HOWIS) gynt.

Dyddiad cwblhau targed: Bydd enghreifftiau o arfer gorau ar y wefan erbyn 30 Ebrill 2012

**Argymhelliad 2:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn rhoi copi o nodyn cyfarwyddyd Swyddfa Archwilio Cymru, sef ‘Bwyta’n Dda yn yr Ysbyty—Yr Hyn y Dylech ei Ddisgwyl’ i bob claf yn ysbytai Cymru, a hynny pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae nifer o’r BILl eisoes yn cynnwys gwybodaeth o’r daflen hon yn y pecynnau a roddir i gleifion adeg eu derbyn. Lle na wneir hynny, bydd yn ofynnol i’r BILl gynnwys yr wybodaeth hon ar faeth yn y deunyddiau a roddir i gleifion adeg eu derbyn neu roi nodyn cyfarwyddyd Swyddfa Archwilio Cymru, ‘*Bwyta’n Dda yn yr Ysbyty—Yr Hyn y Dylech ei Ddisgwyl*’ i bob claf pan fydd yn cyrraedd yr ysbyty. Roedd llythyr y Prif Swyddog Meddygol / Prif Swyddog Nyrsio, y cyfeiriwyd ato yn yr ymateb i argymhelliad 1, yn hysbysu cyrff y GIG o’u gofyniad ac yn darparu dolen at y copi PDF o’r daflen ar wefan Swyddfa

Archwilio Cymru. Bydd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro gan Lywodraeth Cymru bob chwarter yn rhan o'r cyfarfodydd Ansawdd a Chyflenwi a gynhelir yn rheolaidd â BILl / Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

**Argymhelliad 3:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod y modd y mae cyrff y GIG yn rhoi eu cynlluniau gweithredu'u hunain ar waith yn cael ei fonitro'n ofalus a bod y canlyniadau ar gael i bawb eu gweld.*

**Ymateb: Derbyniwyd yn Rhannol**

Cyfrifoldeb cyrff y GIG yw monitro cyflawniad eu cynlluniau gweithredu unigol ar arlwyo a maeth, a dylai Byrddau'r GIG graffu ar eu cynnydd drwy eu Pwyllgorau Archwilio. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd gynnwys eu cynlluniau gweithredu a diweddariadau ar gynnydd ar eu gwefannau.

At hynny, bydd cynnydd yn erbyn pob cynllun gweithredu lleol yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru bob chwarter yn rhan o'r cyfarfodydd Ansawdd a Chyflenwi a gynhelir yn rheolaidd â BILl / Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

**Argymhelliad 4:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro i ba raddau y mae cyrff y GIG yn llwyddo i roi ei chanllawiau ar waith, gan gynnwys defnyddio bwyd lleol sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys, iach i gleifion, lle bo hynny'n bosibl.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae gwefan fewnrwyd wedi'i datblygu sy'n dwyn ynghyd yr holl ganllawiau polisi sy'n ymdrin ag arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai. Mae'r wefan 'Fframwaith Maeth ac Arlwyo mewn Ysbytai', sy'n seiliedig ar Iechyd yng Nghymru, ar gael ar bob ward ym mhob ysbyty drwy'r porth nyrsio a gyflwynwyd yn ddiweddar. Bydd hyn yn helpu i ledaenu canllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyd mewn ysbytai.

I helpu i weithredu'r *Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan* a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer *Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai*, mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i baratoi Bwydlenni Ysbyty Cymru Gyfan. Pan fydd y bwydlenni'n barod bydd modd i ni sefydlu contractau caffael Cymru gyfan ac ystyried cyrchu lleol.

Bydd y gwaith o archwilio cydymffurfiaeth â *Llwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan* a'r *Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai* yn cael ei gyflawni ar draws holl gyrff y GIG drwy'r broses Archwilio Hanfodion Gofal. Mae Safon 9 – Bwyta ac Yfed o'r Hanfodion Gofal wedi'i mapio yn erbyn y safonau canlynol o *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*. Mae hyn yn cynnwys: Safon 5 – Ymgysylltu â Dinasyddion a Cheisio Adborth; Safon 8 –

Cynllunio a Darparu Gofal; a Safon 14 – Maeth. Mae hyn yn sicrhau bod y broses archwilio yn ymdrin â phob agwedd ar y Llwybr a'r Safonau Maeth ac Arlwyo.

Er 2009 mae'n ofynnol i gyrff y GIG gynnal archwiliad llawn o holl wardiau/ adrannau eu hysbytai yn flynyddol a chyflwyno'r canlyniadau i Brif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio Cymru. Gall y system electronig sy'n sylfaen i'r offeryn archwilio ddadansoddi a chynhyrchu adroddiadau o'r data a fewnbynnir ar lefel y ward. Mae hefyd yn galluogi pob ward i ddatblygu cynlluniau gweithredu, i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n achosi pryder yn ogystal ag i adeiladu ar arferion da. Mae gan gyrff y GIG amrywiaeth o fecanweithiau i rannu'r canlyniadau â grwpiau staff perthnasol. Mae cyflwyno mecanwaith dilysu annibynnol ar gyfer y broses Archwilio Hanfodion Gofal yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Dyddiad cwblhau targed: Bydd canlyniadau Archwiliad Hanfodion Gofal 2011 yn cael eu cyhoeddi erbyn 30 Ebrill 2012. Bydd Bwydlen Ysbyty Cymru Gyfan yn cael ei datblygu erbyn Hydref 2012.

**Argymhelliad 5:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym sut a phryd y gallwn ddisgwyl i'r targedau lleihau gwastraff gael eu cyrraedd.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i holl gyrff y GIG sicrhau cyfartaledd cyffredinol o ddeg y cant neu lai o wastraff mewn perthynas â phrydau heb eu cyffwrdd ar draws eu hysbytai erbyn diwedd 2012-13. Bydd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro drwy ffurflenni a gaiff eu dychwelyd yn chwarterol gan gyrff y GIG a hefyd drwy'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Llywodraeth yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r corff a noddir gan y Llywodraeth WRAP (Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau) i ddatblygu cytundeb gwirfoddol ar gyfer y Sector Lletygarwch. Mae hyn yn cynnwys targed lleihau gwastraff o bump y cant ar gyfer gwastraff bwyd a deunydd pacio erbyn 2015. Mae hefyd yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu'r gyfran o wastraff bwyd a deunydd pacio a gaiff ei ailgylchu, ei gompostio neu ei anfon i gyfleuster treulio anaerobig erbyn 2015 (mae targed yn cael ei gytuno â'r diwydiant ar hyn o bryd). Bydd y cytundeb yn ymdrin ag arlwyo mewn ysbytai, ar gyfer gwasanaethau i gleifion ac i eraill. Ar hyn o bryd cynigir lansio'r cytundeb hwn ym mis Mai a bydd holl gyrff y GIG yn cael eu hannog i gymryd rhan.

**Argymhelliad 6:**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod sgoriau hylendid bwyd yn cael eu harddangos yn gyhoeddus yn holl ysbytai Cymru.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn cael ei weithredu'n wirfoddol yng Nghymru ac yn cael ei redeg gan Awdurdodau Lleol mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Bydd Awdurdodau Lleol yn arolygu busnesau bwyd i weld a ydynt yn bodloni gofynion y gyfraith hylendid bwyd. Ar sail yr arolygiad hwn, bydd yr awdurdod lleol yn cyfrifo'r sgôr ac yn anfon sticer yn dangos y sgôr hylendid bwyd at y busnes bwyd. Anogir y busnes bwyd i arddangos y sticer ar y safle; cyhoeddir yr holl sgoriau hefyd ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Ar gyfer y dyfodol mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymgynghori ar ddeddfwriaeth a fyddai'n ei gwneud yn orfodol i'r holl fusnesau bwyd yng Nghymru arddangos eu sgoriau hylendid bwyd.

Yn y cyfamser mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ysgrifennu at y BILl i ofyn iddynt sicrhau bod yr holl ysbytai a holl safleoedd eraill y GIG yng Nghymru sydd wedi cael sgôr hylendid bwyd gan eu Hawdurdod Lleol yn ei harddangos lle y gall defnyddwyr ei gweld yn rhwydd.

**Argymhelliad 7:**
*Rydym yn gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu baratoi cynllun sy'n dangos sut a phryd y bydd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol yn cwblhau'r gwelliannau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu hargymell.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran y gwelliannau a argymhellwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Cynhwyswyd manylion y cynnydd yn y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor cyn sesiwn dystio'r Swyddogion Cyfrifyddu yn Nhachwedd 2011.

Mae datblygiadau eraill ers y sesiwn dystio yn cynnwys:

- Sefydlu grŵp i ddatblygu Bwydlen Ysbyty Cymru Gyfan i ategu'r Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai.
- Trefnu i wefan fewnrwyd sy'n dwyn ynghyd yr holl ganllawiau polisi ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai, sef y wefan 'Fframwaith Maeth ac Arlwyo mewn Ysbytai', fod ar gael ar bob ward ym mhob ysbyty drwy'r porth nyrsio.
- Cwblhau model costio diwygiedig ar gyfer gwasanaethau arlwyo i gleifion ac i eraill. Datblygwyd y model ar ôl ymgynghori a chynnal trafodaethau â phob BILl, Ymddiriedolaeth GIG Felindre a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae canllaw'r model wedi'i ddiwygio hefyd i sicrhau mwy o eglurder ynghylch diffiniadau data, a ddylai sicrhau mwy o gysondeb yng nghymharedd costau arlwyo. Bydd y model yn cael ei weithredu drwy'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau mewn pryd i gasglu data costau 2011-12.

I gael gwybodaeth ar gyfer y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn Hydref 2011, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru arolwg o gynnydd BILl / Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn erbyn y gwelliannau a argymhellwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ddarparu diweddariadau ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn *Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai*, a hynny bob chwe mis nes eu bod i gyd wedi'u cyflawni. Mae'r broses newydd gychwyn o gasglu gwybodaeth am yr eildro. Wedi dadansoddi'r data hyn bydd cynllun yn cael ei ddatblygu i weithredu unrhyw faterion sydd ar ôl, a chaiff ei roi i'r Pwyllgor erbyn diwedd Mai 2012.

Dyddiad cwblhau targed: 31 Mai 2012

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 14 Mai 2012
Ein cyf: HVT/1626/fgb
Tudalen: 1 o 3

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Gadeirydd

**ARLWYO A MAETH CLEIFION MEWN YSBYTAI**

Gofynnodd llythyr y Clerc dyddiedig 17 Ebrill 2012 am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad diweddar y Pwyllgor ar *Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai*. Yn gyffredinol, mae ymateb Llywodraeth Cymru yn un cadarnhaol. Mae'r camau gweithredu a gynigir yn briodol a dylent helpu i fynd i'r afael â'r meysydd pryder a nodir yn adroddiad y Pwyllgor. At hyn, mae amserlenni clir a realistig ynghlwm wrth y rhan fwyaf o'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu cymryd, a ddylai helpu gydag unrhyw adolygiad dilynol o gynnydd.

Gwnaed cynnydd eisoes mewn rhai meysydd pwysig, yn arbennig drwy gyhoeddi canllawiau i gyrff y GIG ar ddiogelu amseroedd bwyd (fel sy'n ofynnol yn **Argymhelliad 1**), a hefyd mewn perthynas â'r defnydd ehangach o'n canllawiau, *'Bwyta'n Iach yn yr Ysbyty - Yr Hyn y Dylech ei Ddisgwyl'* (fel y nodir yn **Argymhelliad 2**). Yn wir, yn achos yr enghraifft olaf, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael nifer o geisiadau gan fyrddau iechyd am gopïau ychwanegol o'r daflen hon. Mae'n gadarnhaol nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi pennu targed ar gyfer gwastraff o brydau na chânt eu bwyta (**Argymhelliad 5**). Mae'r targed a bennwyd yn briodol ac yn unol â'r argymhelliad yn fy adroddiad i. Ymddengys bod y trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r targed wedi'u diffinio'n dda hefyd. Fodd bynnag, dylwn bwysleisio, mewn ymateb i bob un o'r argymhellion hyn, nad yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud gwaith archwilio i gadarnhau a yw'r cam gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith ar lawr gwlad.

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk



100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

Er bod yr ymateb cyffredinol i adroddiad y Pwyllgor yn galonogol, hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at rai meysydd penodol y gallai geisio rhagor o wybodaeth ac eglurhad amdanynt gan Lywodraeth Cymru, os yw'n dymuno. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Yn ei hymateb i **Argymhelliad 3**, noda Llywodraeth Cymru y bydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd roi eu cynlluniau gweithredu a'u diweddariadau ar gynnydd ar eu gwefannau. Nid ydym yn ymwybodol bod hyn yn digwydd eto, ac felly efallai yr hoffai'r Pwyllgor ofyn i Lywodraeth Cymru am wybodaeth am sut y mae'n bwriadu sicrhau bod dogfennau o'r fath ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

- Yn ei hymateb i **Argymhelliad 4**, mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 'wefan y Fframwaith Arlwyo a Maeth mewn Ysbytai' fel modd i godi ymwybyddiaeth o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyd mewn ysbytai. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyrff y GIG yn defnyddio'r wefan yn briodol, a byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Pwyllgor ofyn i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu monitro ac adolygu'r defnydd a wneir o'r wefan.

- Mae'r ymateb i **Argymhelliad 4** hefyd yn cyfeirio at ddefnyddio proses archwilio Hanfodion Gofal fel y prif ddull o fonitro cydymffurfiaeth â *Llwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan* a *Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai.* Mae manteision clir i ddefnyddio'r archwiliad Hanfodion Gofal i fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau hyn o gofio bod y prosesau archwilio eisoes wedi'u hymgorffori ar lefel ward. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon o ran a fydd y broses archwilio yn ddigonol i roi'r sicrwydd angenrheidiol bod yr holl safonau'n cael eu cyrraedd, er enghraifft, y rheini sy'n ymwneud â faint o faethynnau a chaloriau sydd mewn bwyd cleifion. Mae ymateb Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod dulliau yn cael eu hystyried i ddilysu allbynnau archwiliadau Hanfodion Gofal yn annibynnol. Mae hyn yn bwysig o gofio bod elfen sylweddol o'r archwiliad yn seiliedig ar gofnodion o arferion a gedwir gan reolwyr wardiau eu hunain. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor felly am geisio rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y fethodoleg ar gyfer archwiliadau Hanfodion Gofal. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor hefyd am ystyried a fyddai, mewn amser, yn croesawu diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw gynigion cadarn i ddilysu allbynnau'r archwiliadau hyn yn annibynnol.

- Noda ymateb Llywodraeth Cymru i **Argymhelliad 6** fod y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gofyn i gyrff y GIG arddangos sgoriau hylendid bwyd yr awdurdod lleol lle y gall defnyddwyr eu gweld yn hawdd. Er bod llythyr y Gweinidog yn ymateb prydlon i bryderon a godwyd gan y Pwyllgor, efallai y bydd aelodau am geisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru fod y sgoriau hylendid bwyd yn cael eu harddangos bellach yn ôl y bwriad, yn cynnwys sut y gwneir yn siŵr bod y wybodaeth hon yn weladwy i gleifion.

Yn ei hymateb i **Argymhelliad 7,** mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fonitro cynnydd yn erbyn fy argymhellion yn barhaus, a nododd y bydd diweddariad pellach yn cael ei roi i'r Pwyllgor erbyn diwedd Mai 2012, yn cynnwys cynllun i weithredu ar unrhyw faterion sydd ar ôl. Mae hyn o gymorth ac yn adlewyrchu dymuniad Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio'n barhaus ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai. Mae'n dda nodi hefyd y meysydd cynnydd a amlygwyd yn erbyn fy argymhellion blaenorol, o gymharu â'r sefyllfa a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2011. Gallai'r Pwyllgor ofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y diweddariad a addawyd ganddi yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw gynnydd pellach yn erbyn argymhellion y Pwyllgor ei hun, a'i fod yn mynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau sydd heb eu hateb a nodwyd gennyf yn y llythyr hwn.

Hyderaf fod y wybodaeth a roddwyd uchod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Public Accounts Committee

| | |
|---|---|
| Meeting Venue: | **Committee Room 3 - Senedd** |
| Meeting date: | **Tuesday, 8 May 2012** |
| Meeting time: | **09:10 - 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400001_08_05_2012&t=0&l=en

## Concise Minutes:

| | |
|---|---|
| Assembly Members: | **Darren Millar (Chair)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AM**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Lindsay Whittle** |
| Witnesses: | **Jon Rae, WLGA**<br>**Mari Thomas, WLGA**<br>**Huw Vaughan Thomas, Auditor General for Wales, Wales Audit Office**<br>**Mike Usher, Group Director - Financial Audit, WAO** |
| Committee Staff: | **Tom Jackson (Clerk)**<br>**Daniel Collier (Deputy Clerk)**<br>**Joanest Jackson (Legal Advisor)** |

### 1. Introductions, apologies and substitutions

1.1 The Chair welcomed Members and members of the public to the meeting.

### 2. Grants Management in Wales - Evidence from the Welsh Local Government Association

2.1 The Chair Welcomed Jon Rae, Director of Recourses, WLGA and Mari Thomas, Policy Officer (Finance).

2.2 Members questioned the witnesses.

**Action point:**

The WLGA agreed to provide:

- Clarification on the need for (and use of) redundancy wavers when local authority staff are working on fixed-term contracts; and
- Clarification on whether such need arises from European Regulations.

## 3. Motion under Standing Order 17.42 to resolve to exclude the public from the meeting for the following business:

Items 4 to 7.

## 4. Consideration of evidence on Grants Management in Wales

4.1 The Committee discussed the evidence on its inquiry on Grants Management in Wales.

## 5. Consideration of response to the consultation on the Draft Public Audit (Wales) Bill

5.1 The Committee agreed its response to the consultation on the Draft Public Audit (Wales) Bill, which would be sent to the Minister for Finance and Leader of the House shortly.

## 6. Handling of correspondence from the Auditor General for Wales regarding Care and Social Services Inspectorate Wales

6.1 The Committee discussed correspondence from the Auditor General for Wales regarding Care and Social Services Inspectorate Wales, which was previously noted by the Committee on 24 April 2012.

6.2 The Committee agreed to await the outcome of the Health and Social Care Committee's inquiry into residential care for older people (which includes consideration of the effectiveness of the current regulatory regime) before determining whether to take any further action as a result of the Auditor General's correspondence.

## 7. Consideration of visit to Northern Ireland Assembly

7.1 The Committee discussed a proposed visit to the Northern Ireland Assembly.

7.2 The Committee instructed its Clerk to develop more detailed proposals (including dates) for such.

## 8. Paper to note

8.1 The Committee ratified the minutes of the meeting on 1 May 2012.